



# Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Gwella

## Hawliau Tramwy

## 2008-2018

# Datganiad

# Gweithredu

Paratowyd ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych gan  
Public Rights of Way Services Ltd



# Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Ddinbych: Datganiad Gweithredu

## Cyflwyniad: Pwysigrwydd hawliau tramwy Sir Ddinbych

Mae gan Sir Ddinbych dros 1,300 cilomedr o hawliau tramwy cyhoeddus, rhwydwaith dwys o lwybrau sydd wedi eu dosbarthu'n amrywiol yn llwybrau troed, llwybrau ceffyl, culffyrdd yn ogystal â ffyrdd cyhoeddus heb arwyneb. Mae yn y Sir hefyd beth o'r golygfeydd gwychaf, nid yn unig yng Nghymru ond ym Mhrydain gyfan. Mae hyn yn cynnwys Bryniau Clwyd a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - ynghyd â Dyffryn Clwyd, Y Berwyn Berwyn a Mynydd Hiraethog.

Nid yw'n syndod felly fod ein rhwydwaith hawliau tramwy yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n helaeth gan drigolion Sir Ddinbych a'r llu ymwelwyr i'r ardal. Dyma'r brif ffordd i ddod i galon cefn gwlad oddi wrth fwrwm bywyd dyddiol a ffyrdd a ddefnyddir gan geir, i'r mannau y gallant ymlacio ynddyn nhw, ailwefru'r batris, a fforio a mwynhau heddwch, tawelwch a harddwch mawr yr ardal eithriadol hon.

Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy, a oedd unwaith yn 'Cinderella' y rhwydwaith priffyrdd cyfan yn cael ei chydabod yn awr i fod â swyddogaeth bwysig newydd, yn dod ag adfywiad economaidd sylweddol, manteision cymdeithasol, cymunedol ac iechyd i Sir Ddinbych gyfan.

Mae'r cynllun hwn - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - ynglŷn â sut y gall y Sir weithredu ei dyletswyddau statudol pwysig tuag at hawliau tramwy yn fwy effeithlon ac effeithiol, fel y gellir cofnodi pob llwybr yn gywir, a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'i bod yn hawdd dod o hyd iddyn nhw a'u dilyn. Mae hefyd ynglŷn â sut y gellir gwella'r rhwydwaith: i sicrhau fod cymaint o lwybrau ag sydd bosib ar agor i'r rheiny sydd â symudedd cyfyngedig neu anghenion arbennig eraill a bod rhwydwaith dda o lwybrau ar gael hefyd i'r rhai sydd am fwynhau cefn gwlad ar gefn ceffyl, ar feic neu wrth yrru car a cheffyl, jip neu feic mynydd. Ac mae hefyd ynglŷn â sicrhau fod gan bawb sy'n malio am hawliau tramwy Sir Ddinbych neu sydd am fwynhau harddwch ein cefn gwlad, gyrchiad i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt am y llu cyfleoedd sydd gan y rhwydwaith i'w cynnig a sut y gellir mwynhau defnyddio'r rhain yn ddiogel ac yn gyfrifol.

## Pam paratoi cynllun gwella hawliau tramwy a beth ydi o?

Mae'n ofynnol ar Gyngor Sir Ddinbych, fel gydag awdurdodau priffyrdd lleol eraill yng Nghymru a Lloegr, dan ddarpariaeth adran 60, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i baratoi a chyhoeddi cynllun gwella hawliau tramwy.

Mae'r ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol perthynol<sup>1</sup> yn ei gwneud yn glir y dylid paratoi cynllun gwella mewn dau gam. Yn gyntaf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud asesiad trylwyr o nifer o faterion ac i gyhoeddi ei gasgliadau ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r materion hyn yn cynnwys i ba raddau y mae hawliau tramwy yn yr ardal hon yn cyfarfod ag anghenion tebygol y cyhoedd yn y dyfodol, y cyfleoedd y mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn eu

---

<sup>1</sup> *Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy: Arweiniad i Awdurdodau Priffyrdd Lleol yng Nghymru a gyhoeddir dan adran 61(4) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*

darparu ar gyfer ymarfer, hamdden awyr agored a mwynhad o ardal yr Awdurdod, a hygyrchedd y rhwydwaith i'r rheiny sy'n ddall neu sy'n gweld yn rhannol neu sydd â symudedd cyfyngedig.

Yn Sir Ddinbych rydym wedi manteisio ar y cyfle hefyd i adolygu ein perfformiad yn drylwyr yn y ffordd y cofnodwn ac y cynhaliwn y rhwydwaith llwybrau ac yn y ffordd y cyfarfyddwn â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau eraill tuag at hawliau tramwy. Ar yr un pryd gwnaethpwyd ymgynghoriadau gwerthfawr i'n helpu i ddeall yn well bwysigrwydd yr hawliau tramwy lleol yn nhyb pobl Sir Ddinbych a'r amryw o wahanol ffyrdd y caiff y rhwydwaith eu defnyddio'n ymarferol. Fe gyhoeddwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr 2007 ac fe'i dosbarthwyd yn eang ar gyfer sylwadau. Mae crynodeb o'r prif gasgliadau wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, yn Atodiad 3.

### **Am y Datganiad Gweithredu drafft**

Y ddogfen hon – y Datganiad Gweithredu drafft – yw ail ran y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae'n seiliedig ar yr asesiad a dylid ei ddarllen yn gysylltiedig ag o. Mae copi electronig ar gael ar-lein ar <http://www.denbighshire.gov.uk/en-gb/DNAP-7B7GNY>. Gellir cael copïau papur gan yr Uned Hawliau Tramwy am bris tuag at gostau cynhyrchu a phost.

Mae'n nodi sut y mae'r rhwydwaith hawliau tramwy yn Sir Ddinbych a mynediad i gefn gwlad agored i'w reoli a'i wella dros y 10 mlynedd nesaf drwy gyfres o raglenni gwaith treigl blyneddol. Fe gynllunnir y rhaglenni hyn ar sail - a byddant yn gobeithio cyflawni - y 51 o dargedau gweithredu unigol a osodir allan yn adran 5. Mae drafft dros dro o'r rhaglen waith gyntaf yma wedi ei gynnwys hefyd er gwybodaeth, yn Atodiad 1. Hefyd rydym wedi nodi pum prosiect arbennig ychwanegol. Byddai'r prosiectau hyn, sydd hefyd wedi eu gosod allan yn adran 5, yn gwella un neu fwy o agweddau o'r rhwydwaith llwybrau'n sylweddol, er enghraifft cyfran y rhwydwaith y gellir ei ddefnyddio a'i fwynhau gan farchogwyr ceffyl a beicwyr. Ond fe fydd arnynt angen ariannu ychwanegol sylweddol hefyd. Felly dim ond os, a phan, fydd yr ariannu hwnnw wedi ei sicrhau y gellir ymgymryd â'r prosiectau hynny.

### **Sylwadau ar y drafft hwn**

Mae'r drafft hwn yn cael ei gylchredeg yn eang ar gyfer ymgynghori. Os hoffech chi roi sylwadau arno, dylech wneud hynny erbyn Awst 31 2008. Anfonwch eich sylwadau at:

Uned Hawliau Tramwy,  
Caledfryn  
Cyngor Sir Ddinbych  
Ffordd Smithfield  
Dinbych  
LL16 3RJ

Neu e-bost [rightsofway@denbighshire.gov.uk](mailto:rightsofway@denbighshire.gov.uk) <<mailto:rightsofway@denbighshire.gov.uk>>

Fe fyddwn yn ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir cyn terfynu'r Datganiad Gweithredu a hynny mewn partneriaeth â Fforwm Mynediad Lleol y sir. Yna fe'i cyhoeddir ac, ynghyd â'r Asesiad, fe ddaw'n Gynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer y Sir.

## Cynnwys

Cyflwyniad: Pwysigrwydd hawliau tramwy Sir Ddinbych.....	i
Pam paratoi cynllun gwella hawliau tramwy a beth ydi o?.....	i
Am y Datganiad Gweithredu drafft.....	ii
Sylwadau ar y drafft hwn .....	ii
Cynnwys .....	iii
1.    Datblygu'r Datganiad Gweithredu .....	1
1.1    Sefydlu'r Datganiad Gweithredu - Asesiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.	1
1.2    Themâu strategol a blaenoriaethau.....	2
2.    Blaenoriaethau ar gyfer y Datganiad Gweithredu .....	4
2.1    Targedau gweithredu a phrosiectau arbennig .....	5
2.2    Rhaglenni gwaith blynyddol .....	6
3.    Gweithredu'r Datganiad Gweithredu i ddargludo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy..	6
3.1    Cylchdro'r rhaglen flynyddol.....	6
3.2    Trefniadau trosiannol .....	9
4.    Cyllidebau ac adnoddau .....	10
4.1    Cymariaethau gydag awdurdodau cymdogol .....	10
4.2    Yr angen am adnoddau ychwanegol.....	12
4.3    Cost dod â'r rhwydwaith i safon .....	12
4.4    Adnoddau ychwanegol posib o ffynonellau allanol .....	13
4.4.1    Llywodraeth Cynulliad Cymru .....	13
4.4.2    Bidiau i TAITH.....	13
4.5    Yr angen am adnoddau ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych .....	14
4.6    Gweithio cydweithredol o fewn yr Awdurdod.....	14
4.7    Cyd-destun strategol.....	14
4.8    Gweithio gyda'n partneriaid mynediad .....	15
4.8.1    Ffermwyr a pherchnogion tir.....	15
4.8.2    Cymunedau lleol .....	15
4.8.3    Cydweithrediad rhwng awdurdodau .....	16
4.9    Swyddogaeth y Fforwm Mynediad Lleol.....	16
4.10    Polisi tuag at ymestyn y rhwydwaith llwybrau .....	16
4.10.1    Llwybrau goddefol.....	17
4.11    Ymdriniaeth â rheoli gwrthdaro.....	18

5.	Argymhellion a thargedau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy .....	19
	Grwp 1: Y map diffiniol a datganiad a gorchmynion llwybrau cyhoeddus .....	20
	Materion allweddol.....	20
	Grwp 2: Rheolaeth a chynnal a chadw'r rhwydwaith presennol .....	23
	Materion allweddol.....	23
	Grwp 3: Gwelliannau'r Rhwydwaith .....	27
	Materion allweddol.....	27
	Grwp 4: Mynediad i Dir Agored a'r Arfordir .....	30
	Materion allweddol.....	30
	Grwp 5: Gwella hyder, gwybodaeth a chyfle .....	32
	Materion allweddol.....	33
6.	Prosiectau arbennig.....	36
	Prosiect arbennig 1: Milltiroedd Cymunedol.....	36
	Prosiect arbennig 2: Gwelliant coridor Moel Famau - Llandegla – Y Berwyn .....	36
	Prosiect arbennig 3: Llwybr ceffyl a chysylltiad beic Corwen i'r Bala .....	37
	Prosiect arbennig 4: Prosiect Lonydd Tawel Cefnffordd Llanelidan i Lanfair.....	37
	Prosiect arbennig 5: Llwybrau Brodorol .....	37
7.	Gweithrediad monitro Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy.....	40
	Atodiad 1: Rhaglen waith y Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy, Medi 2008 i Fawrth 2010 (Drafft dros dro).....	41
	Atodiad 2: Amcangyfrif o'r gost i bob Cymuned o adfer a chynnal y rhwydwaith Hawl Tramwy cyfan.....	52
	Atodiad 3: Asesiad o'r Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy: Crynodeb gweithredol .....	53
	Cynnwys strategol .....	53
	Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir .....	53
	Trefniadaeth a staffio.....	53
	Llwybrau a hyrwyddir.....	54
	Cyllideb .....	54
	Y Map Diffiniol a'r Datganiad .....	54
	Cyflwr y rhwydwaith llwybrau ac ôl-groniad cynnal a chadw .....	54
	Cynghorau Cymuned a chwaraewyr eraill .....	54
	Defnydd y cyhoedd o hawliau tramwy, a barn ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy .....	55
	Atodiad 4: Rhestr o ymgynghorwyr .....	56
	Cynghorau Cymuned yn Sir Ddinbych.....	56
	Awdurdodau lleol eraill a fforymau mynediad lleol .....	57

Adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth.....	57
Aelodau Seneddol a Chynulliad Cymru .....	57
Cyrff a sefydliadau eraill .....	57

# 1. Datblygu'r Datganiad Gweithredu

## 1.1 Sefydlu'r Datganiad Gweithredu – Asesiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae Asesiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007 yn darparu sail gadarn ar gyfer y Datganiad Gweithredu.

Fe edrychodd yr Asesiad nid yn unig ar y materion oedd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth - faint y mae'r hawliau tramwy'n cyfarfod ag anghenion presennol a dyfodol y cyhoedd, y cyfleoedd y maent yn eu darparu ar gyfer ymarfer a mwynhad o'r ardal, a'u hygyrchedd i'r rheiny sy'n ddall neu'n gweld yn rhannol neu sydd â phroblemau symudedd; ac fe aeth ymhellach hefyd i adolygu dyraniad cyfrifoldeb dros hawliau tramwy a gwaith mynediad i gefn gwlad yn y Sir, cyd-destun strategol y gwaith hwn a'r staff a'r adnoddau ariannol a ddefnyddir, a'n perfformiad yn diogelu, cofnodi, cynnal a datblygu'r rhwydwaith llwybrau. Ar yr un pryd fe gafwyd mewnwelediad gwerthfawr o'r arolwg holiadur i ddefnydd y cyhoedd o, a'u canfyddiadau am, hawliau tramwy i'w hychwanegu at ddata presennol y Sir am ledaeniad a chyflwr y rhwydwaith llwybrau.

Felly mae'r Asesiad yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth fanwl sy'n cefnogi ac yn cyfiawnhau'r datganiad gweithredu arfaethedig. Mae'r testun llawn ar gael ar-lein<sup>2</sup>: mae copi o'r Crynodeb Gweithredol sy'n amlygu rhai o'r casgliadau allweddol wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon yn Atodiad A.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl gyrff gwahanol a'r unigolion sydd wedi cyfrannu tuag at yr Asesiad neu sydd wedi trafferthu i roi eu sylwadau arno. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi'r darlun i fod yn fanwl gywir ac yn darparu sail gadarn i'r Datganiad Gweithredu. Beirniadaeth benodol, fodd bynnag, oedd, wrth adolygu argaeledd hawliau tramwy i wahanol fathau o ddefnyddwyr llwybrau, fe fethwyd â gwerthfawrogi'n llawn bwysigrwydd y llwybrau o ran gyrwyr car a cheffyl ac fe fethwyd â gwerthfawrogi eu hanghenion yn llawn. Beirniadaeth bellach oedd, er mai dim ond darn bach o arfordir sydd gan Sir Ddinbych, fe fethwyd ag ystyried hyn, yn enwedig yng ngoleuni argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymestyn hawl mynediad i'r arfordir erbyn 2008/09 fel y'i gosodir yn [Cymru: Gwlad Well](http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/wales_a_better_country?lang=en) [http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/wales\\_a\\_better\\_country?lang=en](http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/wales_a_better_country?lang=en). Rydym wedi ceisio delio â'r ddwy feirniadaeth yma wrth baratoi'r Datganiad Gweithredu hwn.

---

<sup>2</sup> At [http://www.denbighshire.gov.uk/www/cms/live/content.nsf/lookupattachments/English~DNAP-7B7JWP/\\$File/DCC\\_RoWIP\\_AssessmentFinal.pdf](http://www.denbighshire.gov.uk/www/cms/live/content.nsf/lookupattachments/English~DNAP-7B7JWP/$File/DCC_RoWIP_AssessmentFinal.pdf)



## Sut y datblygwyd y Datganiad Gweithredu hwn - Amlinelliad

Yn seiliedig ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy ac yn dilyn trafodaethau pellach gydag aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol, mae pedair thema sylfaenol a thair thema eilradd wedi eu nodi ac fe ddylai'r Datganiad Gweithredu Hawliau Tramwy ganolbwyntio ar y rhain (Ffigwr 1). Mae pob un o'r saith thema yma yn cynnwys hefyd nifer o faterion allweddol a nodwyd yn yr Asesiad ac a osodir allan isod yn adran 0. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad wedi dangos fod yna gonsensws eang ar y blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Gwella, eto gyda gwahaniaeth yn ymddangos rhwng yr hyn ddylid ei ystyried yn brif flaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer gweithredu a'r rheiny sydd o bwys eilradd (Ffigwr 2).

Mae nodi'r themâu hyn a'r materion allweddol wedi arwain yn eu tro at ddatblygiad rhestr hir o argymhellion gweithredu. Gall pob un o'r argymhellion hyn – a fynegir ar ffurf targed y dylai'r Cynllun Gwella eu cyflawni dros y 10 mlynedd nesaf – gael eu perthnasu'n uniongyrchol i un neu fwy o themâu y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a hefyd i un neu fwy o'r blaenoriaethau. Mae'r targedau hyn felly'n ffurfio dewislen y gellir datblygu rhaglenni gwaith Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ohoni. Y rhaglenni gwaith parhausol hyn, y bwriadwn eu gweithredu mewn cylchdro treigl o dair blynedd fel y'i gosodir allan yn adran 3, fydd y brif ffordd y gellir gweithredu'r Cynllun Gwella dros y deng mlynedd nesaf ac y gellir monitro cynnydd drwyddynt.

Mae'r rhestr o dargedau gweithredu wedi ei gosod ac wedi ei thrafod yn fanwl yn adran 5 tra bod drafft dros dro o'r rhaglen waith gyntaf (am y cyfnod Mawrth 2010) a ddeilliodd o'r rhestr wedi ei amlinellu yn Atodiad 1. Y rhain, yn gyfunol, sy'n ffurfio Datganiad Gweithredu'r Hawliau Tramwy

### 1.2 Themâu strategol a blaenoriaethau

Mae saith o themâu strategol rhyngberthynol yn sefyll allan yn yr Asesiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i fod yn cynnwys yr holl brif faterion y dylai'r Datganiad Gweithredu fod yn canolbwyntio arnynt. Y saith thema yw:

#### Prif themâu

- 1 Taclo ôl-groniad y gwaith i sicrhau fod y map a'r datganiad diffiniol mor fanwl gywir ac mor gynhwysfawr ag sydd bosib
- 2 Gwella cynnal a chadw a rheolaeth y rhwydwaith presennol
- 3 Lleihau mynediad cyfyngedig i alluogi mwy o bobl â symudedd cyfyngedig i ddefnyddio a mwynhau hawliau tramwy
- 4 Ymestyn argaeledd y rhwydwaith i farchogwyr ceffylau a beicwyr

#### Themâu eilradd


- 5 Gwella mynediad i Dir Agored ac Arfordir
- 6 Gwella darpariaeth gwybodaeth, yn cynnwys hyrwyddo mentrau cerdded iach
- 7 Gwelliannau i fynediad a fydd yn gwella twristiaeth

Bydd gweithrediadau sy'n cyfrannu at y ddwy thema gyntaf yma yn helpu i ddileu ansicrwydd a all fodoli ymysg defnyddwyr a pherchnogion tir ynglŷn â pha ffordd y mae llwybr arbennig yn mynd neu sut y gellir ei ddefnyddio, a bydd yn sicrhau hefyd fod cymaint o'r rhwydwaith ag sydd bosib yn agored ac ar gael yn rhwydd i drigolion ac ymwelwyr i'w mwynhau. Ar yr

un pryd bydd y ddwy thema yma'n sicrhau fod yr Awdurdod yn fwy abl i gyfarfod â'i ddyletswyddau a'i oblygiadau statudol presennol tuag at y rhwydwaith llwybrau.

Felly hefyd, wrth weithio tuag at gyfarfod â'r drydedd thema bydd yr Awdurdod yn annog mwy o ddefnydd o'r hawliau tramwy ac yn galluogi'r rhai sy'n oedrannus, sydd â phlant ifanc neu sy'n gyfyngedig yn eu symudedd, i gael mynediad i, ac i allu mwynhau, llawer mwy o lwybrau nag sy'n bosib ar hyn o bryd; tra bydd gweithrediad ynglŷn â'r bedwaredd thema yn helpu i ddelio â'r diffyg cydbwysedd llym rhwng cyfran y rhwydwaith sydd ar gael i gerddwyr a'r rhai sydd ar gael i feicwyr a marchogwyr ceffylau. Felly dylai'r pedair thema gael eu hystyried i ddiffinio'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Datganiad Gweithredu.

Gellir ystyried y tair thema sy'n weddill, er eu bod yn bwysig, yn eilradd i'r pedair cyntaf. Y maen nhw ynglŷn â sicrhau y bydd mynediad i dir agored a sefydlwyd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a mynediad i'r arfordir pan sefydlir hynny, yn gallu cael eu hintegreiddio'n llawn a chael eu rheoli (lle bo hynny'n addas) ynghyd â'r rhwydwaith hawliau tramwy, ac annog mwy o ymwybyddiaeth o, a hyder wrth ddefnyddio, hawliau tramwy a hyrwyddo'r manteision o gerdded fel cymorth i wella iechyd cymunedol; a gwelliannau a fyddai'n gwella a chefnogi twristiaeth wledig ymhellach drwy'r Sir.



**Ffigwr 1: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy: Prif themâu a themâu strategol eilradd**

Mae'r saith thema wedi eu cydgysylltu'n glos ac yn ymarferol bydd y gweithrediadau yn aml o fantais i sawl un ohonyn nhw ar yr un pryd. Bydd dewis y rhai sy'n gwneud hynny yn un o'r prif ffyrdd o bennu pa gynigion sy'n cynnig y gwerth gorau am arian ac felly fe ddylid rhoi blaenoriaeth iddyn nhw wrth ddyrannu adnoddau.

## 2. Blaenoriaethau ar gyfer y Datganiad Gweithredu

Roedd proses Asesu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn werthfawr hefyd i helpu nodi'r prif flaenoriaethau y dylai'r Cynllun Gwella ganolbwyntio arnynt. Fe nodwyd naw o feysydd blaenoriaeth fel y dangosir yn ffigwr 2 isod.

Daw'r tair blaenoriaeth gyntaf (a, b and c) yn uniongyrchol o'r arolwg holiadur o breswylwyr lleol yn Sir Ddinbych; pan ofynnwyd i'r cyhoedd beth ddylai blaenoriaethau'r Cyngor fod, roedd y blaenoriaethau hyn ben ac ysgwydd yn uwch na'r gweddill. Y rhain yw clirio llwybrau a symud rhwystrau fel y gellir defnyddio pob llwybr, yn gyson â'r statws, ar lefel sylfaenol (hyd yn oed y llwybrau hynny mewn ardaloedd anghysbell sy'n cael ychydig o ddefnydd); codi mwy o arwyddion fel bod llwybrau'n haws eu ffeindio; a gwneud y llwybrau'n haws eu defnyddio i'r rhai sy'n oedrannus neu sydd â symudedd cyfyngedig.

Roedd aelodau'r cyhoedd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cwblhau'r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy er nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn rhestru hyn fel prif flaenoriaeth. Ond, fe amlygodd trafodaethau gyda'r Fforwm Mynediad Lleol (a dderbyniodd y tair blaenoriaeth uchaf) bwysigrwydd sicrhau bod y Map a'r Datganiad Diffiniol mor gynhwysfawr a manwl gywir ag sydd bosib. Cydnabuwyd, er enghraifft, y byddai'r gwaith hwn yn aml yn tanategu llawer o'r gwelliannau sydd eu hangen i'r rhwydwaith llwybrau.

Felly hefyd, er nad oedd y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn ystyried fod cynyddu nifer y llwybrau ceffyl neu'r culffyrdd yn flaenoriaeth, gan adlewyrchu'r ffaith fod llai o lawer o bobl yn defnyddio'r rhwydwaith llwybrau i farchogaeth ceffyl neu feicio nag sy'n eu defnyddio ar droed, fe amlygodd yr asesiad rhwydwaith a wnaethpwyd brinder y llwybrau sydd ar gael i'r defnyddwyr hyn fel y gwnaeth y trafodaethau o fewn y Fforwm Mynediad Lleol. Yn benodol, fe gydnabu'r Fforwm fod yna angen brys i gysylltu'r grwpiau o lwybrau ceffyl a chulffyrdd unig sy'n bod mewn rhai rhannau o'r Sir. Ar hyn o bryd, bydd y rheiny sy'n dymuno teithio o un ardal i'r llall yn cael eu gorfodi i farchogaeth neu feicio cryn bellter ar hyd priffyrdd prysur a pheryglus i greu teithiau hir.

Blaenoriaeth g. Mae 'Llwybrau mewn ardaloedd trefol' yn berthynol i'r angen i nodi a chofnodi'n ffurfiol y nifer o hawliau tramwy mewn ardaloedd trefol sy'n rhan bwysig o ffabrig y trefi a'r pentrefi ond nad ydynt, er y dangosir ar Restr Strydoedd y Cyngor eu bod i'w cynnal a'u cadw ar gost gyhoeddus, yn cael eu dangos ar y Map a'r Datganiad Diffiniol. Dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwylt, oni bai fod y llwybrau hyn wedi eu cofnodi erbyn Ionawr 2026, byddant yn peidio â bod ac fe ddilëir hawl y cyhoedd i'w defnyddio. Os (fel sy'n bosib) y diddymir y darpariaethau hyn cyn diwrnod y toriad, yna bydd yn rhaid ailasesu'r angen i roi blaenoriaeth i'r gwaith hwn hefyd.

Mae'r ddwy flaenoriaeth sy'n weddill (h ac i) ynglŷn â darpariaeth gwybodaeth. Mae'r cyntaf yn cydnabod yr angen i annog llawer mwy o ymwybyddiaeth ar lefel cymuned leol o ba hawliau tramwy sydd wedi eu cofnodi, i ble y maent yn mynd a sut y gellir eu defnyddio'n ymarferol. Byddai hyn yn help i ddatblygu diddordeb y gymuned a'i hymdeimlad o 'berchnogaeth' ac yn eu hannog i fod yn fwy ymglymedig ynglŷn â chynnal a chadw eu hawliau tramwy lleol. Felly hefyd, er bod yna gyfoeth o wybodaeth am lwybrau troed, gall fod yn anodd i'r rhai hynny sydd ag anghenion mwy penodol i gyrchu'r rhwydwaith llwybrau neu i wybod pa lwybrau sydd ar gael iddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sydd ag amhariadau symudedd neu amhariadau eraill a'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r rhwydwaith i feicio, i farchogaeth ceffyl neu i yrru car a cheffyl. Y flaenoriaeth felly yw dod o hyd i ffyrdd o

oresgyn y diffyg hwn ac i adeiladu hyder wrth annog y defnyddwyr hyn i geisio'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.



**Ffigwr 2: Blaenoriaeth briodol ar gyfer y datganiad gweithredu**

## 2.1 Targedau gweithredu a phrosiectau arbennig

O fewn pob un o'r saith thema, gellir nodi nifer fawr o faterion allweddol. I ddelio â'r rhain fe ddatblygwyd cyfres o argymhellion, gyda phob argymhelliad yn cael ei fynegi ar ffurf Targed Gweithredu annibynnol. Fe nodwyd cyfanswm o 50 o'r targedau hyn, eu cynnull yn bum grŵp pwnc, ynghyd â phump o Brosiectau Arbennig pellach.

Fe osodir y Targedau Gweithredu hyn allan yn fanwl yn adran 5. Mae amrediad eu sgôp o'r rhai a fydd, yn syml, yn sicrhau fod yr Awdurdod yn gallu cyfarfod â'i dyletswyddau statudol presennol yn llawn i gofnodi, diogelu a chynnal a chadw pob hawliau tramwy a'i fod yn gallu gwneud hynny mor effeithlon ac effeithiol ag sydd bosib - ac felly gynnal ei safle fel un o'r awdurdodau blaenllaw o ran hawliau tramwy yng Nghymru - i'r rheiny a fyddai'n datblygu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy ymhellach ac yn eu gwella'n fawr, ac felly'n cynyddu'r manteision i breswylwyr Sir Ddinbych ac yn gwella twristiaeth wledig ymhellach.

Mae pob un o'r pum Prosiect Arbennig, a gaiff hefyd eu disgrifio'n fanylach yn adran 5, yn tynnu nifer o argymhellion gweithredu at ei gilydd yn brosiect annibynnol. Mae'r Prosiectau i gyd yn cyfarfod â nod penodedig Llywodraeth Cynulliad Cymru o wneud mwy ar gyfer grwpiau sydd wedi eu heithrio neu alluogi ystod ehangach o ddefnyddwyr llwybrau i gael budd o hawliau tramwy. Byddant hefyd yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o ariannu ychwanegol Ond mae'r prosiectau i gyd yn rhai a fyddai angen ariannu ychwanegol penodol er mwyn cael eu gweithredu'n llawn. Felly fe ddylai'r Prosiectau Arbennig gael eu hystyried fel atodiad i'r prif ddatganiad gweithredu ac fe'i gweithredir os a phan ellir sicrhau'r ariannu ychwanegol hwnnw.

## 2.2 Rhaglenni gwaith blynyddol

Mae'r gyfres o Dargedau Gweithredu a'r rhestr o Brosiectau Arbennig yn darparu dewislen y gellir datblygu a gweithredu rhaglenni gwaith ohoni ar sail dreigl, a thrwy hynny gellir cyflawni cynnydd wrth ddargludo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ymarferol ac wrth fonitro'r cynnydd hwnnw,


Mae'r dull hwn wedi ei ddylunio i sicrhau fod yr Awdurdod yn gallu cynnal y symbyliad tuag at gyflawni'r Cynllun Gwella drwy gydol oes y cynnydd o 10 mlynedd, wrth ddargadw hyblygrwydd a'i alluogi i addasu i newidiadau yn y ffactorau y seiliwyd y Cynllun arnynt ac yn lefel y staff a'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar unrhyw adeg. Bydd y dull yn sicrhau, er enghraifft, y gall y Targed Hawliau Tramwy barhau i gymryd mantais lawn o'r arian 'annisgwyl' tymor byr a all ddigwydd yn ystod blwyddyn y rhaglen fel y digwyddodd yn y gorffennol, ac y gellir cyfeirio unrhyw arian felly tuag at gyfarfod ag un neu fwy o amcanion allweddol y cynllun. Felly hefyd bydd y dull hwn yn galluogi gwneud bidiau i gyrff fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru am unrhyw ariannu allanol, ac i'r Uned Hawliau Tramwy ddefnyddio unrhyw arian grant a ddyrennir iddi yn fwyaf effeithiol, ond bydd hefyd yn golygu nad yw'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn rhy ddibynnol ar lwyddiant y dulliau hyn.

Yn y cam yma, wrth adolygu perfformiad y flwyddyn flaenorol a llunio rhaglen y flwyddyn ddilynol, y gellir pennu union lefel y staff a'r adnoddau ariannol angenrheidiol a'u cydweddu â'r adnoddau sydd ar gael yn ymarferol, y gellir gosod neu gymhwyso dangoswyr perfformiad penodol, a dyrannu cyfrifoldebau i gyfarfod â phob targed unigol. Eto, bydd hyn yn sicrhau fod yr Awdurdod yn cadw hyblygrwydd yn ei ymdriniaeth wrth aros o fewn amlen y Cynllun Gwella. Mae'r ffordd a argymhellir i ddatblygu'r rhaglenni blynyddol hyn gan weithio i gylch treigl o dair blynedd wedi eu gosod isod yn adran 3.1.

## 3. Gweithredu'r Datganiad Gweithredu i ddargludo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

### 3.1 Cylchdro'r rhaglen flynyddol

Bwriad yr argymhellion gweithredu a thargedau yw ffurfio dewislen y gellir datblygu a gweithredu rhaglenni gwaith ohoni ar gylch parhaus o dair blynedd fel y dangosir isod ac yn fanwl yn ffigur 3. Fe ddyluniwyd y cylch blynyddol i gyd-fynd â threfniadau cyllid y Cyngor Sir a chyda'r rheiny a ragwelir yn fframwaith ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ariannu. Mae hyn yn argymhell bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gofyn i bob awdurdod priffyrdd gwblhau ffurflen safonol ym Mai / dechrau Mehefin bob blwyddyn yn gosod eu hamcanion a'u gweithrediadau blaenoriaethol a'r rhaglen waith flynyddol, gydag adolygiad yn digwydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r awdurdodau mynediad ym mis Rhagfyr. Ond efallai y bydd angen addasu'r amserlen yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'r fframwaith hwnnw.




**Ffigwr 1: Cylch rhaglen tair blynedd**

Ar gychwyn y cylch, ym mis Ebrill fel rheol, fe lunnir rhestr o ddewislen Targedau Gweithredu'r CGHT o'r cynlluniau newydd y gobeithir y gellir eu gweithredu, neu y gellir dechrau eu gweithredu, yn y flwyddyn ddilynol fel rhan o raglen waith y flwyddyn honno. Ar yr un pryd fe ymgynghorir â'r FfMLI a'u gwahodd i gadarnhau sgôp a ffocws y rhaglen flynyddol newydd yma. Yna gellir parhau i lunio'r argymhellion hyn yn fanwl, gyda'r elfennau hynny sydd i'w cario drosodd o'r flwyddyn gyfredol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen newydd ym mis Medi/Hydref yn dilyn adolygiad canol blwyddyn o'r gwaith sy'n ar droed yn gyfredol.

Dylid gwneud amcangyfrifon o'r staff a'r adnoddau ariannol angenrheidiol i weithredu'r gwaith arfaethedig erbyn Tachwedd/Rhagfyr, a therfynu a chadarnhau'r rhaglen gyfan gyda'r FfMLI yn y cyfnod Rhagfyr-Mawrth unwaith y gwyddys lefel yr adnoddau a fydd ar gael yn ymarferol ynghyd â chanlyniad y bidiau a wnaethpwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu unrhyw ffynhonnell allanol arall. Dylai rhaglen waith y flwyddyn gyfredol hefyd gael adolygiad diwedd blwyddyn yn y cyfnod Ionawr-Mawrth, gan alluogi'r profiad a enillwyd i gael ei ystyried wrth derfynu gwaith y flwyddyn nesaf.

I gloi, unwaith y bydd y rhaglen waith flynyddol fanwl wedi ei chytuno, gellir dyrannu cyfrifoldebau penodol. Dylid gosod dangoswyr perfformiad hefyd a threfniadau monitro cyn i waith gychwyn ar weithredu'r rhaglen ar gychwyn y flwyddyn ariannol newydd.





**Ffigur 2: Cylch Rhaglen WaithTreigl Blynyddol blynyddoedd 1 a 2. (Blwyddyn 3 wedi ei hepgor er mwyn eglurder)**

### 3.2 Trefniadau trosiannol

I gyd-ddigwydd â chylchdro cyllidol a chylchdroadau eraill yr Awdurdod a gynorthwyir gan grant, bydd rhaglen waith y CGHT fel rheol yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried blwyddyn gyntaf gweithrediad ymarferol y Cynlluniau Gwella i fod yn flwyddyn ariannol gyfredol, 2008/9.

Er mwyn cymryd mantais o'r ariannu sydd ar gael (fel y cyfeirir ato yn adran 4.4.1) a chymryd fod y CGHT yn cyfarfod â therfyn amser Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael ei gymeradwyo'n ffurfiol yn dilyn ymgynghoriad wyth wythnos erbyn Medi 15 2008, argymhellir y dylai rhaglen waith gyntaf y CGHT fod yn rhaglen interim yn cwmpasu'r cyfnod o 19 mis o Fedi 2008 i Fawrth 2010. Fe ddatblygir y rhaglen hon mewn dau gam.

Mae Atodiad 1 yn rhestr ragarweiniol o'r cynlluniau a'r argymhellion y gwneir rhaglen waith dros dro ohoni mewn ymgynghoriad â'r FfMLI a'i sefydlu. Bydd gweithrediad y rhaglen, a fydd yn ystyried y gwaith paratoadol a wnaethpwyd eisoes yn dilyn Asesiad y CGHT, yn cychwyn cyn gynted ag sy'n ymarferol unwaith y bo'r CGHT wedi ei gadarnhau'n ffurfiol, felly'n galluogi cychwyn gweithredu'r CGHT yn y flwyddyn ariannol gyfredol o Fedi/Hydref ymlaen. Fe adolygir y rhaglen dros dro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ym Mawrth 2009, lle yr adolygir y rhestr gychwynnol ac y llunnir rhaglen waith bellach sy'n fwy cynhwysfawr - y rhaglen dros dro - mewn trafodaethau gyda'r FfMLI.

Y rhaglen interim yma, a fydd yn ymgorffori'r gwaith a ddechreuwyd yn barod, a fwriedir i gwmpasu'r cyfnod cyfan o 19 mis hyd fis Mawrth 2010. Yn ogystal â'r adolygiad ym Mawrth 2009, felly, dylid gwneud adolygiad 'canol-tymor' yn hydref 2009 ynghyd ag adolygiad 'diwedd blwyddyn' yn Chwefror/Mawrth 2010.

O gychwyn y flwyddyn ariannol newydd yn Ebrill 2009 ymlaen, dylid cychwyn gweithio ar baratoi'r rhaglen waith flynyddol 'safonol', i gychwyn yn Ebrill 2010 yn dilyn cwblhau'r rhaglen interim.



## 4. Cyllidebau ac adnoddau

Mae'r Sir ar hyn o bryd yn darparu cyllideb referniw a chyfalaf ar gyfer hawliau tramwy yn rhan o gyllideb cynnal priffyrdd y Cyngor. Yn 2007/08 roedd y symiau hyn yn £107,710 a £50,000. Mae hyn yn gynydd o 50% ar gyllideb y flwyddyn ariannol flaenorol, yn adlewyrchu ailwerthusiad o'r swm a wariwyd gan yr Awdurdod ar gynnal priffyrdd yn gyffredinol yn dilyn pwysau gan aelodau etholedig a'r Fforwm Mynediad Lleol. Ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth gyllidebol yn gyfredol am waith sy'n gysylltiedig â'r Map a'r Datganiad Diffiniol, yn cynnwys gwneud a phrosesu Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol.


Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant referniw, tua 60%, wedi ei ddyrannu i lwybrau. Ond, yn nhermau cymharol, fe warir llawer mwy y cilomedr ar gulffyrdd (£296 y cilomedr) a llwybrau ceffyl (£108 y cilomedr) nag ar lwybrau (53p y cilomedr).




Nid oes gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad ei gyllideb bwrpasol ei hun ond mae'n ddibynnol yn anad dim ar gymorth grant, yn enwedig yr un gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'n cael incwm hefyd o weithio mewn partneriaeth ar sail ad-daliad. O ran ei waith ar hawliau tramwy, yr unig incwm sicr ar hyn o bryd yw hwnnw gan Gyngor Cefn Gwlad am gynnal Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ac sy'n oddeutu £10,000 y flwyddyn.

### 4.1 Cymariaethau gydag awdurdodau cymdogol


Tra bod rhwydwaith hawliau tramwy Sir Ddinbych mewn cyflwr gwell nag ardaloedd ein hawdurdodau cymdogol, gan roi mantais gystadleuol gryf i'r Sir fel lleoliad ar gyfer gwyliau gweithgareddau ac ymweliadau dydd, mae gwariant referniw ar gynnal y rhwydwaith hefyd yn is na'r rhan fwyaf o'n cymdogion fel y mae nifer y staff a gyflogir ar waith hawliau tramwy.

Mae gwariant cynnal Sir Ddinbych y cilomedr o hawliau tramwy yn ddim ond £82.30 er enghraifft, o'i gymharu â ffigwr o £93.78 gan Wynedd, £96.59 gan Sir Fflint a £130 gan Gonwy. Felly hefyd mae'r uned hawliau tramwy yn Sir Ddinbych yn cynnwys dim ond pump o swyddogion, o'i gymharu â saith swyddog yng Nghonwy ac wyth yn Sir Fflint sydd hefyd â rhwydwaith llwybrau llai.





Mae'r Dangosydd Perfformiad safonol ar gyfer hawliau tramwy'n dangos rhagoriaeth cyflwr llwybrau Sir Ddinbych, sy'n fesur o gyfran y rhwydwaith llwybrau y gellir ei nodi ar y ddaear a'u defnyddio heb ormod o anhawster. O safbwynt cenedlaethol, dros y deng mlynedd diwethaf mae perfformiad Sir Ddinbych wedi bod yn gyson o fewn neu'n uwch na'r chwarterl uchaf yr holl awdurdodau yng Nghymru. Felly hefyd, ers 2001 mae graddfa gwelliant y Sir wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. O'r llwybrau a arolygwyd yn 2006/07, roedd 69% yn cyflawni meini prawf perfformiad (cynnydd o 5% ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol) y gyfran uchaf gan unrhyw Awdurdod yn ardal Gogledd Cymru ac yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 50.6%. Mewn termau Cenedlaethol daeth Sir Ddinbych yn 6ed allan o 22 o awdurdodau, ymhell ar y blaen o Sir Fflint a oedd yn 12fed, Ynys Môn (15fed), Gwynedd (19eg) a Chonwy (22ain).



## 4.2 Yr angen am adnoddau ychwanegol

Er perfformiad ardderchog yr Uned Hawliau Tramwy, mae lefel gyfredol y gwariant ar hawliau tramwy ond yn ddigon i gadw'r rhwydwaith yn ei chyflwr presennol yn gyffredinol; nid yw'n caniatáu unrhyw ymosodiad ar yr ôl-groniad o faterion cynnal a chadw a welwyd i fod yn bodoli gan yr arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cyfan a wnaethpwyd yn 2002. Ac nid yw lefel gyfredol y gwariant yn caniatáu newid o ddull adweithiol o ymladd tân lle na all y Cyngor wneud dim mwy nac ymateb i gwynion a dderbynia, i weithio ar sail sy'n fwy effeithiol ac effeithlon o ran cynnal a chadw cynlluniedig. (Gweler Asesiad y CGHT am drafodaeth lawnach ar y materion hyn). Y newid hwn i gyfundrefn o strwythur rhagweithiol, yn seiliedig ar hierarchaeth llwybrau a rhaglen o archwiliadau rheolaidd, a ystyrir i fod yn elfen allweddol o'r Cynllun Gwella ac sydd hefyd yn allweddol i sylweddoli llawer o'r gwelliannau eraill a argymhellir i'r rhwydwaith yn y Datganiad Gweithredu hwn.

Mae'n debygol hefyd, heb adnoddau pellach, y bydd yn anodd gwella llawer y tu hwnt i'r Dangosydd Perfformiad o tua 69% o lwybrau ar agor i'w defnyddio ar lefel sylfaenol isaf, ac er symbyliad y Cynllun Gwella mae yna berygl gwirioneddol y gallai cyflwr y rhwydwaith ddechrau llithro'n ôl. Darganfu arolwg 2002, er enghraifft, fod angen atgyweirio sylweddol ar y rhwydwaith cyfan, gyda llawer o gamfeydd, giatiau ac eitemau eraill o ddodrefn llwybr un ai ar goll (gyda rhwystr ar yr hawl tramwy), neu eu bod yn adfeiliedig ac angen eu hatgyweirio. Mae dadansoddiad pellach o gasgliadau'r arolwg wedi dangos fod nifer cynyddol o bontydd ac eitemau eraill o ddodrefn llwybr yn dod at ddiwedd eu hoes. Mae colli pont, er enghraifft, â'r potensial i effeithio ar ran fawr o'r rhwydwaith. Fe all hefyd godi materion lechyd a Diogelwch neu olygu fod yr Awdurdod yn agored i achos cyfreithiol. Hefyd, er bod y Dangosydd Perfformiad efallai yn dda o'i gymharu â rhai awdurdodau eraill, mae bron i draean o'r rhwydwaith wedi eu rhwystro neu mae yna anhawster wrth eu defnyddio.

## 4.3 Cost dod â'r rhwydwaith i safon

Mae dadansoddiad pellach o gasgliadau arolwg 2002 wedi dangos y byddai clirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw a dod â'r rhwydwaith i safon yn gofyn am wariant ychwanegol unigryw o oddeutu £590,000. O'u hymestyn dros gyfnod o 5 i 6 blynedd, byddai hyn yn cyfartalu i oddeutu £100,000 - £120,000 yf. Wedi hynny byddai g wariant gynyddol o oddeutu £150,000 y flwyddyn ynangenrheidiol i gadw'r rhwydwaith ar y lefel hwnnw ac i barhau i adnewyddu dodrefn llwybr wrth iddynt ddod i ben eu taith. Ond nid yw'r ffigurau hyn yn caniatáu clirio llystyfiant naturiol (sy'n costio tua £12,000 y flwyddyn ar hyn o bryd) nac unrhyw waith draenio na gwaith ailwynebu llwybrau sy'n angenrheidiol o bryd i'w gilydd.

Mae'n hynod fod y gwariant sy'n angenrheidiol yn amrywio'n fawr rhwng cymunedau. Er bod cyfartaledd cost y gymuned i ddelfio ag ôl-groniad atgyweirio yn £13,738 mae hyn yn amrywio o lai na £1,000 (yn Y Rhyl a Chefn Meiriadog er enghraifft) i fwy na £45,000 yn Llanellidan a Llandegla, dros £72,000 yn Llanfair Dyffryn Clwyd a £73,000 yn Llanarmon yn lâl. Felly hefyd y gost flynyddol o gadw'r rhwydwaith mewn cyflwr da, er yn cyfartalu £3,492 y gymuned, mae'n amrywio o lai na £1,000 mewn ychydig o gymunedau i dros £8,000 yn Llanarmon yn lâl, Llanfair Dyffryn Clwyd a Dinbych a bron i £10,000 yn Llanynys. Mae dadansoddiad o'r gwahanol gymunedau i'w gael yn Atodiad 2.

#### **4.4 Adnoddau ychwanegol posib o ffynonellau allanol**

Disgwylir y bydd adnoddau ychwanegol ar gael o dro i dro gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru tuag at weithredu CGHT, gan fidiau llwyddiannus i TAITH a chan fidiau llwyddiannus am ariannu'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig os gellir datblygu partneriaethau ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill. Er hynny, bydd cynnydd yng ngwariant Cyngor Sir Ddinbych ei hun ar hawliau tramwy yn angenrheidiol i roi cychwyn i'r CGHT ac yn enwedig i gyflawni'r trawsnewidiad i ddull o gynnal cynlluniedig yn seiliedig ar hierarchaeth rhwydwaith.

##### **4.4.1 Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Mewn memorandwm at yr holl awdurdodau yn gosod y fframwaith ariannu ar gyfer CGHT mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi, i sicrhau fod y CGHT wedi eu hariannu'n ddigonol o 2008/9 (blwyddyn gyntaf gweithrediad ymarferol) fod adnoddau ychwanegol o £1.7 miliwn o arian cyfalaf wedi ei glustnodi gan Dim Mynediad i Gefn Gwlad a Pharciau Cenedlaethol gyda symiau tebyg wedi eu dyrannu dros dro am y ddwy flynedd nesaf, 2009/10 a 2010/11. Rhan Sir Ddinbych o'r swm yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol fydd £69,375. Mae'r arian yn ddibynnol ar i'r Awdurdod allu cwblhau a mabwysiadu'r CGHT yn ffurfiol (yn cynnwys ymgynghoriad allanol o wyth wythnos ac ystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad) erbyn Medi 15 2008.

Byddai adnoddau ychwanegol fel hyn yn ddigon i gyflogi Archwilydd Llwybrau ychwanegol i ddatblygu hierarchaeth llwybrau yng ngham cyntaf y newid arfaethedig i'r gyfundrefn gynnal a chadw a gynlluniwyd fel y'i gosodir yn adran 4.2 neu i ganiatáu gwaith rhagarweiniol ar un neu fwy o'r Prosiectau Arbennig. Ond ni fyddai'n ddigonol - ac ni fwriedir yr arian - i gyflenwi'r diffyg gwariant ar gynnal y rhwydwaith llwybrau er mwyn cyfarfod â dyletswyddau statudol presennol yr Awdurdod.

##### **4.4.2 Bidiau i TAITH**

Mae bidiau dros dro wedi eu gwneud i TAITH am ariannu i gefnogi'r pum cynllun a restrir yn adran 5 fel Prosiectau Arbennig. Y symiau a geisir yw:

<b>Prosiect Arbennig</b>	<b>Cyfanswm y bid</b>	<b>Cyfnod</b>
Milltiroedd Cymuned	£700,000	Blynyddoedd 1-10
Prosiect Mynediad Moel Famau - Llandegla – Y Berwyn	£200,000	Blynyddoedd 1-10
Llwybr Corwen i'r Bala	£200,000	Blynyddoedd 5-10
Prosiect Lonydd Tawel Llanelidan a Llanfair DC	£150,000	Blynyddoedd 1-5
Llwybrau Brodorol – Gwefan Ar-lein	£75,000	Blynyddoedd 1-5

#### 4.5 Yr angen am adnoddau ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych

Er yr adnoddau ychwanegol hyn, mae'n amlwg mai dim ond os bydd yna ryw gynnydd hefyd yng ngwariant refeniw'r Cyngor Sir ei hun, yn enwedig yn y swm a gyfeirir tuag at gynnal y rhwydwaith llwybrau, y bydd yn bosib cyflawni cynnydd sylweddol tuag at gyfarfod â'r amcanion a osodwyd yn y Cynllun Gwella.

Fel y nodwyd uchod, byddai delio ag ôl-groniad presennol yr atgyweirio'n gofyn am ariannu ychwanegol o £100,000 y flwyddyn am gyfnod o chwe blynedd. Byddai cynnydd i ddod â gwariant refeniw y gilomedr o hawliau tramwy i'r un lefel â chyfartaledd y pedwar awdurdod arall yng Ngogledd Cymru - Ynys Môn, Conwy, Sir Flint a Gwynedd o £111.17 yn mynd beth o'r ffordd i gyfarfod â'r targed hwn, ond byddai'n cynyddu cyfanswm y gyllideb o ddim ond tua £44,300 yf.

#### 4.6 Gweithio cydweithredol o fewn yr Awdurdod

Cafodd rhaniad cyfrifoldeb o fewn y Sir ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad, gyda'r Uned Hawliau Tramwy yn bennaf gyfrifol am y map diffiniol a materion cynnal a gorfodi ond gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn arwain ar lwybrau a hyrwyddir, ei archwilio'n llawn yn yr Asesiad a chafwyd ei fod yn gweithio'n dda. Nid argymhellir unrhyw newid yn rhaniad sylfaenol y cyfrifoldeb felly, a bydd gan y ddwy adran swyddogaeth hanfodol i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Datganiad Gweithredu.

Ond nid yw dargludiad y Cynllun Gwella'n gyfrifoldeb ar y ddwy adran yma'n unig. Fel yr amlygodd yr Asesiad, mae'n bwysig fod y CGHT yn cael ei 'berchnogi' gan yr Awdurdod cyfan a bod cyfrifoldeb am weithredu'r CGHT yn cael ei gydnabod yn eang a'i rannu ar draws yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cydnabod cyfraniad y Cynllun Gwella i amcanion yr Awdurdod ar gyfer adfywiad economaidd, twristiaeth ac iechyd a lles y gymuned.

#### 4.7 Cyd-destun strategol

Mae cynnwys strategol y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi eu gosod allan yn fanwl yn Asesiad y CGHT. Pwysleisia hwn y dylid ystyried y CGHT i fod yn perthyn yn uniongyrchol i amcanion cenedlaethol ehangach ar gyfer cefn gwlad, twristiaeth gynaliadwy ac iechyd cymunedol, ac y dylid ei ystyried hefyd fel un o'r gyfres o gynlluniau a strategaethau a luniwyd i helpu'r Cyngor i gyfarfod ag anghenion preswylwyr ac ymwelwyr i'r ardal ac i ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol mor effeithlon ac effeithiol ag sydd bosib. Mae'n rhaid

i'r CGHT felly ddefnyddio a chyfrannu tuag at y dulliau strategol eraill hyn a bydd integreiddio'r CGHT i'r fframwaith strategol ehangach yn hanfodol os yw argymhellion y cynllun i'w cyflawni'n llawn.

Ymysg dogfennau polisi strategol eraill y Cyngor, mae wyth wedi eu nodi sy'n perthyn yn agos i'r Cynllun Gwella. Y rhain yw:

- *Gweledigaeth Sir Ddinbych 2025 a'r targedau perthnasol yn Strategaeth Gymunedol Sir Ddinbych*
- *Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy'r AHNE (2008 - 2012)*
- *Y tair Strategaeth Economaidd Ymwelwyr ar gyfer Dyffryn Dyfrdwy, Dyffryn Clwyd a Hiraethog*
- *Strategaeth Twristiaeth Gerdded i Gymru*
- *Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-2011*

Ar lefel Ranbarthol, bydd *Cynllun Cludiant Rhanbarthol i Ogledd Cymru* a ddatblygwyd gan TAITH yn bwysig hefyd..

Bydd yn hanfodol felly fod y swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaethau eraill hyn yn gwbl ymwybodol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r ffordd y'i gweithredir ar gylch treigl drwy raglenni gwaith blynyddol, a'u bod yn cyfrannu lle bynnag y bo hynny'n bosib i gyfarfod ag amcanion y rhaglenni hyn. Felly hefyd, mae'n rhaid i'r Uned Hawliau Tramwy ystyried y teulu ehangach yma o gynlluniau a strategaethau a sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gallu cyfrannu tuag at yr amcanion eraill hyn.

## **4.8 Gweithio gyda'n partneriaid mynediad**

Y Cyngor Sir, fel yr awdurdod priffyrdd a'r corff sydd â dyletswydd statudol i gofnodi, diogelu a chynnal hawliau tramwy yn ei ardal, sydd i arwain ar y rhan fwyaf o'r argymhellion yn y Datganiad Gweithredu hwn. Ond dim ond os gallwn adeiladu partneriaethau llwyddiannus gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion y gellir gwireddu'r Cynllun Gwella'n llawn.

### **4.8.1 Ffermwyr a pherchnogion tir**

Mae'r rhan fwyaf o hawliau tramwy ar draws tir sydd mewn perchnogaeth breifat ac fe'i defnyddir gan fwyaf ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a dibenion economaidd pwysig eraill. Bydd ymestyn a gwella cyfleoedd mynediad yn y ffordd a ragwelwn ni yn digwydd dim ond os gallwn adeiladu ar y berthynas waith gref a sefydlwyd gyda'r miloedd o dirfeddianwyr unigol a rheolwyr yn Sir Ddinbych drwyddi draw a thrwy gydweithredu â'r cyrff sy'n cynrychioli eu buddiannau: Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr a Chymdeithas Tir a Busnes Gwledig.

### **4.8.2 Cymunedau lleol**

Mae gan gymunedau lleol hefyd swyddogaeth hanfodol i wella ac ymestyn cyfleoedd mynediad. Maen nhw nid yn unig yn y safle orau i wybod yn union sut y defnyddir ac y gwerthfawrogir yr hawliau tramwy presennol yn eu hardal ac i weld y cyfleoedd ar gyfer gwelliannau, ond mae gan Gynghorwyr Cymunedol eu pwerau eu hunain i weithredu: pwerau y byddant, gobeithio, yn eu hymarfer i helpu'r Cyngor Sir. Bydd Prosiect Arbennig 'Milltiroedd Cymunedol' yn arbennig yn dibynnu ar eu parodrwydd i wneud hynny.



### 4.8.3 Cydweithrediad rhwng awdurdodau

Mae gan yr Awdurdod hanes cryf yn barod ers yr ad-drefnu o gydweithio ar hawliau tramwy a swyddogaethau Gwasanaeth Cefn Gwlad gydag awdurdodau cymdogol, yn enwedig gyda Chonwy a Sir Fflint ac yn cynnwys ar waith yn AHNE Bryniau Clwyd, Mynydd Hiraethog a'r Berwyn. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cydnabod bod tirweddau nodedig y rhanbarth sy'n denu llawer o ddefnyddwyr hamdden i gefn gwlad yn rhedeg ar draws ffiniau awdurdod, a bod y ffordd y rheolir y tirweddau hyn a'r hamdden ynddyn nhw yn gofyn am ymdriniaeth unedig.

Yn fwy cyffredinol, mae yna hefyd dueddiad cynyddol i awdurdodau Gogledd Cymru weithio gyda'i gilydd yn gydweithredol i ddargludo ystod eang o wasanaethau a swyddogaethau.

O ran Cynlluniau Gwella, mae amcanion gwaelodol a dull cynllun Sir Ddinbych yn debyg neu'n ategol i gynlluniau ein hawdurdodau cymdogol gan gynyddu'r potensial am weithio traws-ffiniau. Fe fforir y cyfleoedd hyn yn drylwyr wrth i argymhellion unigol gael eu trefnu a'u gweithredu. Yn ogystal, efallai y bydd cynlluniau fel y prosiect Milltiroedd Cymunedol arfaethedig sy'n ymestyn cwmpas cyfleoedd a gwella mwynhad defnyddwyr llwybrau o'r rhwydwaith, yn gymwys am (ac yn ddibynol ar) Ariannu Datblygiad Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd. I gymhwyso bydd yn rhaid datblygu'r cynllun ar sail ranbarthol gyda nifer o awdurdodau yn gweithio gyda'i gilydd i amcanion a rennir.

### 4.9 Swyddogaeth y Fforwm Mynediad Lleol

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol eisoes wedi chwarae rhan hanfodol yn cynghori ar Asesiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac yn helpu i lunio'r Datganiad Gweithredu hwn. Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn parhau i fod â swyddogaeth bwysig yn enwedig:

- I helpu i bennu sgôp a ffocws pob rhaglen waith flynyddol
- I weithio ar argymhellion i'w cynnwys yn y rhaglenni hyn
- I gynghori ar flaenoriaethau
- I fonitro cynnydd

I alluogi'r Fforwm Mynediad Lleol i wireddu'r swyddogaeth hon yn llawn, fodd bynnag, bydd yn angenrheidiol sicrhau fod ganddo ei Ysgrifennydd annibynnol ei hun i weinyddu busnes y Fforwm a sicrhau y gall weithredu hyd braich oddi wrth yr Awdurdod.

### 4.10 Polisi tuag at ymestyn y rhwydwaith llwybrau

Un o'r anghenion allweddol a nodwyd yn asesiad y CGHT yw datblygu rhwydwaith o lwybrau sy'n llawer gwell a mwy integredig ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr. Ar hyn o bryd yn ogystal â bod yna lawer yn llai o'r llwybrau hyn ar gael ar gyfer y defnyddwyr hyn nag ar gyfer cerddwyr, mae llawer o'r llwybrau ceffyl a'r culffyrdd sydd yn bodoli wedi eu hynysu, sy'n golygu mai dim ond mewn cysylltiad â ffyrdd sy'n aml â thraffig ceir sylweddol y gellir eu defnyddio. Pan fydd yna grwpiau o lwybrau ceffyl a chulffyrdd, mae'r rhain hefyd wedi eu hynysu. Y mae yna felly angen brys i ddatblygu cysylltiadau strategol, i ganiatau marchogwyr ceffylau a beicwyr i deithio ar draws y Sir heb orfod marchogaeth neu feicio ar briffyrdd prysur a pheryglus. Er enghraifft mae angen coridor mynediad i gysylltu rhan ddeheuol Bryniau Clwyd â'r Berwyn.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd angen creu rhannau newydd o lwybrau. Efallai y bydd hyn, er enghraifft, i gysylltu llwybrau presennol i greu taith gylchol ddeniadol, neu i gerddwyr beidio gorfod cerdded ar hyd priffordd brysur.

Pryd bynnag y nodir yr angen am lwybrau gwell, ein gwaith cyntaf fydd i sicrhau fod yr holl hawliau cyfreithiol sy'n bod yn yr ardal wedi eu nodi a'u cofnodi'n gywir. Y mae yna, er enghraifft, nifer o hen ffyrdd yn y Sir nad ydynt wedi eu cofnodi o gwbl ar y map diffiniol a'r datganiad ac eraill lle mae'n ymddangos yn debygol fod yna ddiffyg cofnodi hawliau'r cyhoedd; er enghraifft lle bydd ffordd wedi ei chofnodi ar y map diffiniol fel llwybr ond sy'n debygol, wedi archwiliad, i fod yn dangos fod iddi hawliau uwch.

Wrth ymchwilio a chofnodi'r llwybrau hyn, byddwn hefyd yn ceisio gweithio mewn cydweithrediad â'r gymuned ffermio a pherchnogion tir. Nod tymor hir y Sir yw sefydlu rhwydwaith gynaliadwy a all gyfarfod ag anghenion hamdden defnyddwyr llwybrau heddiw heb wrthdaro ag amaethyddiaeth, coedwigaeth a defnydd tir sylfaenol arall; nid rhwydwaith sy'n glynu'n slafaid at y llwybrau a sefydlwyd mewn oes a fu. Am y rheswm yma fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth gydymdeimladol lle bynnag y bo hynny'n bosib i ddargyfeirio llwybr hawl tramwy i osgoi gwrthdaro fel hyn, pan ellir cyflawni hyn o fewn y ddeddfwriaeth sydd ar gael i ni.

Dim ond pan fydd ein harchwiliadau wedi cadarnhau nad oes yna unrhyw hawl tramwy hanesyddol addas y gellir eu haddasu y byddwn yn ystyried ymestyn y rhwydwaith drwy greu hawl tramwy cwbl newydd. Eto, ein dewis fydd i fwrw ymlaen gyda chydsyniad a chydweithrediad y gymuned amaethyddol a thirfeddianwyr (yn cynnwys ynglŷn ag iawndal) pryd bynnag y bydd yn bosib gwneud hynny. Ond yr ydym yn barod pan fo'r angen i greu llwybrau, llwybrau ceffyl neu gulffyrdd cyfyngedig newydd drwy orchymyn, a chydabyddwn mai dyma'r ffordd gyflymaf a thecaf weithiau o ddatrys y gwahaniaethau barn ddilys a all godi oherwydd yr angen am lwybr newydd. Mewn achosion felly, fe wneir y penderfyniad terfynol ynglŷn ag a ddylid cadarnhau gorchymyn a wrthwynebir, nid gan y Cyngor ond gan archwilydd annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyn gwneud y fath orchymyn mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ystyried effaith y gallai ffordd newydd fel hyn ei gael ar ddefnydd effeithiol y tir. Hefyd ni fyddwn yn dymuno cychwyn ar y ffordd yma o weithredu oni bai ein bod yn sicr fod arian digonol ar gael i sefydlu'r llwybr ar y ddaear ac i gyfarfod â hawl y tirfeddiannwr i iawndal.

#### **4.10.1 Llwybrau goddefol**

Gall cyfleoedd godi hefyd i ymestyn rhwydwaith llwybrau drwy drafod llwybrau goddefol, yn cynnwys drwy raglenni fel Tir Gofal. Nid yw llwybrau fel hyn â hawliau tramwy cyhoeddus ond maent yn bod am y cyfnod a gytunwyd gyda'r tirfeddiannwr ac mae'n amodol ar ba amodau neu gyfyngiadau bynnag a nodir. Yn nodweddiadol gellid bod wedi cytuno ar lwybr, er enghraifft, yn amodol ar iddo fod wedi ei gau yn y nos, neu'n amodol na fydd yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr â chŵn, neu y gellir ei gau neu ei symud ar adegau arbennig o'r flwyddyn i gyd-fynd â gweithrediadau amaethyddol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall llwybrau goddefol fod yn atodiad defnyddiol yn aml i rwydwaith llwybrau lleol ond, oherwydd eu natur gyfyngedig i amser ni fyddant, fel rheol, yn addas i gyfarfod ag anghenion tymor hir rhwydwaith llwybrau estynedig fel y'i nodir yn asesiad CGHT. Oherwydd hyn, wrth i'r Cyngor groesawu unrhyw argymhellion gan grwpiau



defnyddwyr neu grwpiau cymunedol lleol sy'n fodlon arwain wrth greu llwybrau goddefol addas drwy drafodaeth, dim ond pan fyddwn yn fodlon fod y gwariant yn cynrychioli gwerth da am arian ac y byddai wedi ei ddiogelu pe câi'r caniatâd i ddefnyddio'r llwybr ei dynnu'n ôl, y byddwn yn ariannu'r fath argymhellion.

#### **4.11 Ymdriniaeth â rheoli gwrthdaro**

Cyfrifoldeb sylfaenol y Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd yw cyfarfod ag anghenion defnyddwyr priffyrdd. Gyda nifer cynyddol o'r cyhoedd yn rhannu rhwydwaith gyfyngedig, ar brydiau gellir disgwyl gwrthdaro rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr neu rhwng defnyddwyr a thirfeddianwyr.

Nod y Cyngor bob amser fydd cadw pob hawl tramwy ar agor i bawb sydd â hawl cyfreithiol i'w ddefnyddio ac i beidio gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un math o ddefnyddwyr llwybrau. Felly fe ystyrir ataliad neu dynnu hawliau defnyddwyr yn ôl mewn amgylchiadau eithafol yn unig ac fel dewis olaf pan na fydd yna unrhyw ddulliau gwahanol ar ôl i'w hystyried. Fe fydd hefyd yn ystyried effaith tynnu'r hawliau hynny'n ôl ar y rhwydwaith cyffredinol sydd ar gael i'r defnyddwyr hynny.

## 5. Argymhellion a thargedau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Isod mae'r argymhellion gweithredu allweddol y bwriedir delio â nhw yn ystod bywyd y CGHT, gyda phob argymhelliad yn cael ei fynegi, lle bo hynny'n bosib, ar ffurf targed arwahanol. Y themâu a'r blaenoriaethau a ddangosir yw'r rheiny a nodir yn adrannau 0 a 2, a'r cyrff arweiniol a phartneriaid eraill yw'r rheiny a drafodir yn adrannau 4.6 a 4.8. Yn gwyno, y rhain yw:

### Themâu

- 1 Taelo'r ôl-groniad i wneud y map diffiniol a'r datganiad mor fanwl gywir a chynhwysfawr ag sydd bosib
- 2 Gwella cynnal a chadw a rheolaeth y rhwydwaith presennol
- 3 Lleihau mynediad cyfyngedig i alluogi mwy o bobl i ddefnyddio a mwynhau hawliau tramwy
- 4 Ymestyn argaeledd y rhwydwaith ar gyfer marchogwyr ceffyl a beicwyr
- 5 Gwella mynediad i Dir Agored a'r Arfordir
- 6 Gwella darpariaeth gwybodaeth, yn cynnwys hyrwyddo mentrau cerdded iach
- 7 Gwelliannau i fynediad a fydd yn gwella twristiaeth

### Blaenoriaethau

- a Sicrhau fod llwybrau'n rhydd o rwystrau a'u bod yn agored i'w defnyddio
- b Gwneud y llwybrau'n haws i'w ffeindio
- c Gwneud y llwybrau'n haws eu defnyddio gan y rheiny sydd â symudedd cyfyngedig
- d Gweithio i gwblhau'r map diffiniol a'r datganiad
- p Datrys/llleihau gwrthdaro
- f Gwella'r rhwydwaith ar gyfer marchogwyr ceffyl a beicwyr
- g Llwybrau mewn ardaloedd trefol
- h Gwella cywirdeb ac argaeledd gwybodaeth
- l Gwell cyrchiad i wybodaeth i wella mwynhad cefn gwlad

### Cyrff arweiniol a phartneriaid eraill

- |       |  |
|-------|--|
| DP    | Cyngor Sir Ddinbych, Priffyrdd             |
| DC    | Cyngor Sir Ddinbych, Gwasanaeth Cefn Gwlad |
| CC    | Cynghorau Cymuned                          |
| FfMLI | Fforwm Mynediad Lleol                      |
| CCGC  | Cyngor Cefn Gwlad Cymru                    |
| YM    | Cyngor Sir Ynys Môn                        |
| C     | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy             |
| Ff    | Cyngor Sir Fflint                          |
| G     | Cyngor Sir Gwynedd                         |
| P     | Cyngor Sir Powys                           |
| W     | Cyngor Sir Wrecsam                         |
| GD    | Grwpiau Defnyddwyr                         |
| DT    | Dalwyr Tir                                 |
| PB    | Partneriaethau Busnes Lleol                |

## Grwp 1: Y map diffiniol a datganiad a gorchmynion llwybr cyhoeddus

Y map a'r datganiad diffiniol yw sylfaen pob gwaith ar hawliau tramwy, yn darparu tystiolaeth derfynol yn ôl y gyfraith o hawliau tramwy a ddangosir arno, y ffordd y maent yn mynd a sut y gellir eu defnyddio. Mae felly'n tanategu holl waith arall y Cyngor yn diogelu, cynnal a chadw a hyrwyddo'r rhwydwaith llwybrau.

Ond mae'r gwaith sydd ynghlwm â chadw'r map a'r datganiad diffiniol yn gyfoes yn dechnegol ac yn gyfreithiol gymhleth ac yn aml iawn yn cymryd cryn amser. Gan fod y rhan fwyaf o hawliau tramwy dros dir preifat, gall y gwaith fod hefyd yn sensitif iawn, gyda chyfran gynyddol o achosion yn esgor ar ymchwiliad cyhoeddus yn hytrach na chael eu datrys drwy drafodaethau. Mae'r ffaith fod natur y gwaith hwn yn gymhleth ac yn cymryd cymaint o amser ac mai nifer fechan o staff arbenigol sydd ar gael, yn cyfyngu ar y cynnydd y gellir ei gyflawni.

Mae gorchmynion llwybrau cyhoeddus yn darparu peirianwaith hanfodol i reoli hawliau tramwy ar y ddaear drwy ddargyfeirio a dileu llwybrau presennol a chreu rhai newydd. Mae'r gwaith rywfaint yn llai cymhleth na chyda'r map diffiniol. Ond mae hefyd yn gofyn am wybodaeth fanwl o'r ddeddfwriaeth a gweithdrefnau, gall gymryd yr un faint o amser ac mae'n aml yn sensitif iawn yn lleol. Bydd yr un swyddogion arbenigol yn delio gyda'r map diffiniol a gorchmynion llwybrau cyhoeddus ac mae'n synhwyrol bod y ddau bwnc yn cael eu hystyried gyda'i gilydd yn y Datganiad Gweithredu.

## Materion allweddol

Mae'r materion allweddol a amlygir gan Asesiad y CGHT yn cynnwys:

- Bydd Swyddog Hawliau Tramwy ac un Swyddog Mynediad yn delio â materion y map diffiniol a gorchmynion llwybrau cyhoeddus. Byddant yn defnyddio cymorth y Gwasanaethau Cyfreithiol ond, ar hyn o bryd, nid oes yna gymorth cyfreithiol pwrpasol.
- Mae map diffiniol presennol y Sir wedi ei silio ar fap OS sydd dros 30 mlwydd oed. Mae ardal fechan, oedd unwaith yn rhan o Wynedd, ar fap ar wahân. Fe fydd cyfuno'r ddau fap yma'n flaenoriaeth wrth roi'r wybodaeth ar fap sylfaenol cyfoes digidol.
- Un o fanteision ailgyhoeddi'r map diffiniol yn y ffurf yma yw y bydd yn galluogi'r Awdurdod i gyflenwi pob cymuned â map cyfoes o'r holl lwybrau a gofnodwyd yn yr ardal wedi eu darlunio ar fap sylfaenol OS diweddaraf a gellir ailgyhoeddi'r map yn rheolaidd.
- Fe gwblhawyd y gwaith o ddigido'r map diffiniol yn ystod y 1990au ond fe ddatgelodd y broses nifer fawr o wallau ac anghysonderau yn ogystal â chreu rhai newydd. Fe nodwyd 800 o wallau ac fe fydd angen archwiliad manwl ar draean o'r rheiny ac efallai y bydd yn rhaid gwneud gorchmynion addasiadau i'r map diffiniol. Dim ond os bydd adnoddau staff ychwanegol ar gael y bydd yn bosib delio â'r materion hyn yn gywir.
- Mae asesiad rhagarweiniol gan yr Uned Hawliau Tramwy wedi awgrymu y gall fod yna gymaint â 200 o 'ffyrdd coll' yn Sir Ddinbych - hawliau tramwy nad ydynt wedi eu cofnodi ar y map diffiniol a'r datganiad. Efallai fod rhai ohonynt yn hen briffyrdd a allai, o bosib, wneud cyfraniad sylweddol i wella'r rhwydwaith i farchogion ceffyl a beicwyr. Mae'n bwysig archwilio'r rhain cyn gynted ag sydd bosib i nodi lle mae'r

llwybrau er mwyn osgoi gwaith a allai fod yn ofer wrth geisio sefydlu darpariaeth wahanol.

- Mae'r gwaith sydd ynghlwm â delio gyda gorchmynion i ddargyfeirio neu ddileu hawliau tramwy hefyd yn gymhleth ac yn cymryd amser. Mae gorchmynion i newid llwybrau i alluogi datblygiad y cafwyd caniatad cynllunio ar ei gyfer wedi bod, yn y gorffennol, yn hynod ddadleuol ac mae'n tarfu ar amser y staff. Gan nad yw'n bosib proffwydo nifer achosion felly ymlaen llaw na'r baich gwaith y byddant yn ei gynhyrchu, mae'n anodd cyflwyno achos dros gyflogi aelod staff ychwanegol. Mae angen dull gwahanol felly i atal y gorchmynion hyn rhag dargyfeirio amser y staff oddi wrth waith blaenoriaethol arall.
- Mae syniadau y gellid eu fforio'n cynnwys rhoi'r gwaith allan i gontract ac yna rhoi'r gost yn ôl ar yr ymgeisydd, neu ddichonolrwydd grŵp o awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i greu tîm pwrpasol i ddelio â phob gorchymyn fel hyn ar draws y bartneriaeth.

Targed gweithredu	Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol /; Partneriaid
-------------------	--------	----------------	--------------------------------

### Grwp 1: Map diffiniol a datganiad a gorchmynion llwybrau cyhoeddus

1.1	Datblygu rhaglen i nodi, diffinio a blaenoriaethu datrysiad yr 800+ o wallau cyfredol yn y map diffiniol	1,6	d	DP
1.2	Paratoi ac ailgyhoeddi map diffiniol papur cyfunol o'r wybodaeth ddigidol	1,2,6	d,i	DP
1.3	Paratoi strategaeth i ddiweddarau'r map diffiniol ar sail dreigl i gofnodi digwyddiadau cyfreithiol ac wrth i wallau gael eu datrys	1	d,h,i	DP
1.4	Cyhoeddi copiâu electronig o'r map diffiniol ar y Rhynggrwyd a thrwy lyfrgelloedd / siopau un stop / Canolfannau Cefn Gwlad	1,2,6	d,h,i	DP
1.5	Datblygu rhaglen i ddatrys yr ôl-groniad o orchmynion addasiadau'r map diffiniol	1,2,4,6	d,p,h	DP
1.6	Nodi a blaenoriaethu cofnodi'r hawliau tramwy sydd wedi eu hepgor o'r map diffiniol drwy wall hanesyddol	1,2,6	d,p,f,g,h	DP, FfMLI
1.7	Cynhyrchu canllawiau a pholisïau ar gyfer ceisiadau gorchmynion llwybrau cyhoeddus i atal amhariad ar waith y map diffiniol a gwaith blaenoriaethol arall.	1,2,4,6	d,p,g	DP, FfMLI, PB
1.8	Datblygu gwell ymwybyddiaeth o gofrestr gorchmynion a gweithdrefnau llwybrau sydd ar gael i dirfeddianwyr i atal cyflwyniad tybiedig hawliau tramwy newydd.	1,6	h	DP, FfMLI, PB

## Grwp 2: Rheolaeth a chynnal a chadw'r rhwydwaith presennol

Ac eithrio'r llwybrau a hyrwyddir sy'n cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad, mae tîm o ddau Archwiliwr Llwybrau (un yn 80% llawn amser), yn gweithio dan gyfarwyddiaeth Cynorthwydd Mynediad, yn delio â chynnal a chadw a rheolaeth ddyddiol y rhan fwyaf o hawliau tramwy. Fe ymdrinnir â phroblemau yn uniongyrchol ac yn bersonol pryd bynnag y bydd hynny'n bosib, gyda'r Archwiliwr Llwybrau fel rheol yn ymdrin â'r tiffeddianwr dan sylw. Mae yna raglen flynyddol o strimio dan gontract sirol, gyda blaenoriaeth i lwybrau mewn ardaloedd trefol sy'n gwasanaethu cyfleusterau cymunedol. Fe archwiliwyd y trefniadau hyn yn asesiad y CGHT ac fe gafwyd eu bod yn gweithio'n dda.

Yn 2007/08 roedd cyllidebau refeniw a chyfalaf y sir ar gyfer halwiau tramwy yn £107,710 a £50,000, gydag oddeutu 60% o'r blaenorol yn cael ei ddyrannu i lwybrau cerdded. Ond, mewn termau cymharol, fe warir llawer mwy y cilomedr ar gulffyrdd (£296 y cilomedr) a llwybrau ceffyl (£108 y cilomedr) nag ar lwybrau cerdded (53c y cilomedr). Mae'r Uned Hawliau Tramwy'n elwa o fod yn rhan o Grŵp Rhwydwaith yr Adran Trafnidiaeth a Seilwaith sy'n dal cyllideb yr Awdurdod ar gyfer cynnal priffyrdd. Mae hyn yn ei alluogi i gyfuno adnoddau gyda gwaith cyflenwol mewn adrannau eraill a hefyd i sicrhau ariannu ychwanegol unigryw yn ystod y flwyddyn os bydd arian ar gael.

Mae cyflwr cyffredinol hawliau tramwy yn Sir Ddinbych yn sylweddol well nag mewn ardaloedd yr awdurdodau cymdogol. Mae hyn yn etifeddiaeth yr ymdrech a wnaethpwyd yn y 1990au i gyfarfod â thargedau 'Blwyddyn 2000' y Llywodraeth ar gyfer hawliau tramwy ac mae'n rhoi mantais gystadleuol gref i Sir Ddinbych fel cyrchfan twristiaeth gweithgareddau a thripiâu dydd i gefn gwlad.

Mae lefel presennol y staffio, fodd bynnag, yn golygu mai dim ond ar sail 'ymladd tân' y gall y Cyngor weithredu, gan ymateb i faterion a ddygir i'w sylw gan ddefnyddwyr llwybrau. Ac ni all archwilio'r rhwydwaith llwybrau'n rheolaidd nac ymosod ar ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw y gwyddys amdano. Felly mae'r Awdurdod yn dal yn agored i achos y gallai unrhyw ddefnyddiwr llwybr ei ddwyn i orfodi'r Awdurdod i ddelio â hawl tramwy sydd wedi ei rwystro neu sydd heb ei drwsio, yn cynnwys achos drwy'r Llysoedd. Byddai'r newid arfaethedig i'r drefn gynnal a chadw a gynlluniwyd yn helpu i ddarparu amddiffyniad effeithiol yn erbyn y fath achos.

Yr allwedd i wneud cynnydd gyda'r agwedd hon ar y Cynllun Gwella fydd i sicrhau penodiad Archwiliwr Llwybrau ychwanegol. Byddai hyn yn caniatáu i'r Uned Hawliau Tramwy weithredu hierarchaeth llwybrau a gytunwyd mewn egwyddor gan y Fforwm Mynediad Lleol ac yna symud yn raddol i raglen gynnal a chadw gynlluniedig sy'n fwy effeithiol ac effeithlon ac sydd wedi ei chysylltu â chylch rheolaidd o archwiliadau llwybrau

## Materion allweddol

Mae'r materion allweddol a amlygwyd gan Asesiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'n cynnwys:

- Mae perfformiad Sir Ddinbych yn gofalu am ei rhwydwaith llwybrau yn gyson uwch na'r canolig - etifeddiaeth o'r ymdrech a wnaethpwyd yn y 1990au i gyfarfod â tharged 'Blwyddyn 2000' y Llywodraeth ar gyfer hawliau tramwy. Er hynny, nid yw gwariant cyfredol yn caniatáu i'r Cyngor ymosod ar yr ôl-groniad o faterion cynnal a chadw y gwyddys am eu bodolaeth.

- Cadarnhaodd arolwg cynhwysfawr yn 2002 fod y rhwydwaith Hawliau Tramwy cyfan angen atgyweiriad sylweddol, gyda llawer o gamfeydd, giatiau ac eitemau eraill o ddodrefn llwybr un ai ar goll (a'r hawl tramwy wedi ei rwystro) neu wedi dadfeilio ac angen eu hadnewyddu.
- Byddai datrys yr ôl-groniad hwn yn gofyn am wariant unigryw o oddeutu £590,000, gyda gwariant cyfredol o £100,000 - £150,000 y flwyddyn i gadw'r rhwydwaith i safon. Byddai angen arian hefyd i ddelio ag unrhyw ddraeniad neu faterion arwynebedd llwybrau a chadw'r llwybrau'n glir o lystyfiant naturiol.
- Fe adolygwyd ac fe gyfnerthwyd dull y Cyngor o ddelio â rheolaeth a chynnal a chadw arferol yn 2002 ond mae'n parhau, ar y cyfan, i gael ei arwain gan alw. Ac nid yw'n bosib gwneud dim byd mwy nac arolygon blynyddol sampl.
- Byddai penodiad Archwilydd Llwybrau ychwanegol yn caniatáu newid graddol i'r sefyllfa lle y byddai 90% o'r rhwydwaith yn cael ei archwilio ar gyloch o 1-3 blynedd a'r rhwydwaith cyfan yn cael ei rheoli'n rhagweithiol, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud ar sail ataliol cyn i lwybr gael ei rwystro neu iddo fod yn anodd ei ddefnyddio.
- Yr allwedd i wneud y newid hwn fydd cyflwyno hierarchaeth llwybrau, fel yr argymhellwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol yn 2004. Byddai hyn yn rhannu'r rhwydwaith yn bedwar categori yn seiliedig ar bwysigrwydd pob llwybr unigol o fewn y gymuned leol a'r rhwydwaith Sirol ehangach. Mae gan feddalwedd CAMS y Cyngor y gallu i ddosbarthu llwybrau yn ôl hierarchaeth fel hyn.
- Ni fyddai mabwysiadu hierarchaeth yn effeithio ar statws cyfreithiol unrhyw lwybr, nac yn effeithio ar ddyletswyddau statudol y tîrfeddiannwr na'r Awdurdod mewn unrhyw ffordd. Ond byddai'n lleihau'r ansicrwydd presennol yn arw i ddefnyddwyr llwybrau ac yn sicrhau fod Sir Ddinbych yn cynnal ei helpen gystadleuol gref i ddenu ymwelwyr actif ac ymwelwyr tripliau dydd i ddefnyddio'r hawliau tramwy yn y Sir.

Targed gweithredu	Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
-------------------	--------	----------------	-------------------------------

## Grwp 2: Rheolaeth a chynhaliaeth y rhwydwaith llwybrau presennol

2.1	Cynhyrchu ystod o bolisiâu a gweithdrefnau clir ar gyfer rheolaeth hawliau tramwy a ffyrdd heb arwyneb	2,6	p,h	DP, DC, FfMLI
2.2	Datblygu a gweithredu rhaglen i newid i drefn gynnal a chadw gynlluniedig yn hytrach na bod yn seiliedig ar gwynion	2	a,b,p	DP, DC, CC, FfMLI
2.3	Datblygu rhaglen o arolygon blynyddol i ddadansoddi cyflwr y rhwydwaith, defnydd y llwybrau a bodlonrwydd defnyddwyr	2,4,6	h	DP, DC, FfMLI, CC, GD
2.4	Datblygu strategaeth i sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn parhau i gael eu cynnal i safon uchel sy'n gyson â'u statws ac i ddelio â mater ariannu	2,7	a,b,p	DC, DP, CC,
2.5	Datblygu system gan ddefnyddio pecyn CAMS i gofnodi ceisiadau cwsmeriaid ac i wella adborth	2,6	a,p,i	DP
2.6	Cynnal y drefn gynnal a chadw a gorfodaeth hyd nes y caiff ei disodli gan darged 2.2 wrth ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio cydweithredol gyda chynghorau cymuned, tiffeddianwyr a gwirfoddolwyr	2,4	a,b,c,p	DP, DC, CC, FfMLI, GD
2.7	Parhau i gasglu gwybodaeth seilwaith a gwella cyrchiad i'r wybodaeth honno ar gyfer defnyddwyr llwybrau	2,6	a,b,h	DP, DC, GD
2.8	Cynnal rhaglen gyfredol a gwelliannau arwyddion	2,6	b	DP
2.9	Gwella dodrefn 1 - 3	2	a,c	DP, DC



Targed gweithredu		Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
2.10	Gwelliannau dodrefn 4 - 5	2	a,c	DP, DC
2.11	Gwelliannau arwyneb 1 - 3	2	c,f	DP, DC
2.12	Gwelliannau arwyneb 4 - 5	2	c,f	DP, DC
2.13	Nodi a blaenoriaethu trwsio ac adnewyddu pontydd 1 – 3	2	a	DP
2.14	Nodi a blaenoriaethu trwsio ac adnewyddu pontydd 4 – 5	2	a	DP
2.15	Cynnal a chadw Cyfredol 1 - 3	2	a	DP, DC, CC, GD
2.16	Cynnal a Chadw Cyfredol 4 - 5	2	a	DP, DC, CC, GD

### Grwp 3: Gwelliannau'r Rhwydwaith

Mae Dadansoddiad y CGHT yn dangos yn glir, tra bod y rhan fwyaf o Sir Ddinbych â darpariaeth dda o ran llwybrau ac ystod eang o gyfleoedd cerdded, mae'r rhwydwaith ar gyfer marchogwyr ceffyl a beicwyr yn llawer tlotach gydag ond nifer cyfyngedig iawn o lwybrau ceffyl a chulffyrdd ar gael iddyn nhw. Hefyd mae'r llwybrau y gellir eu defnyddio yn tueddu i fod wedi eu crynhoi mewn ardaloedd penodol yn y Sir heb unrhyw fynediad rhyngddyn nhw, felly'n gorfodi defnyddwyr i un ai groesi, neu orfod marchogaeth neu feicio, ar hyd priffyrdd prysur a pheryglus. Mae llwybrau sy'n addas i yrru car a cheffyl bron yn gwbl absennol.

Mater arall yw'r nifer cyfyngedig iawn o lwybrau sy'n agored i, ac yn hawdd eu cyrchu gan, y rhai sy'n oedrannus, sydd â symudedd diffygiol neu anghenion arbennig eraill. Mae yna brinder llwybrau fel hyn hyd yn oed yn y rhannau sydd â'r golygfeydd mwyaf atyniadol a phoblogaidd yn y Sir.

Gwelwyd yr angen i wneud cyfran uwch o lawer o'r rhwydwaith yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n oedrannus neu sydd â symudedd diffygiol, yn flaenoriaeth allweddol gan aelodau'r cyhoedd. Nod y Cyngor felly, fydd i ddileu gwaharddiadau sy'n cyfyngu mynediad lle bynnag y bo hynny'n bosib fel mater o ymarfer da. Hyn, ynghyd â'r angen i ddarparu cysylltiadau strategol ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr, ddylai fod yn brif ffocws y gwelliannau a wneir i'r rhwydwaith hawliau tramwy yn ôl y cynllun.

### Materion allweddol

- Dros y Sir gyfan, mae rhwydwaith yr hawliau tramwy presennol yn gwasanaethu cerddwyr a beicwyr yn dda yn gyffredinol pan ystyrir ffyrdd annosbarthedig y sir hefyd.
- Ystyrir cyflwr y rhwydwaith i fod yn dda yn gyffredinol hefyd gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr.
- Ond mae dosbarthiad y rhwydwaith yn anwastad iawn fodd bynnag, ac mae yna sgôp ar gyfer mwy o ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd yn enwedig yn agos at rai o ardaloedd mwy poblog y Sir. Byddai defnyddwyr, er enghraifft, yn croesawu darpariaeth ychwanegol yng nghornel ogledd gorllewinol Sir Ddinbych.
- I farchogwyr ceffyl, mae'r rhwydwaith presennol yn llawer llai boddhaol. Hyd yn oed yn yr ardaloedd lle mae yna nifer cymharol uchel o lwybrau ceffyl a chulffyrdd, mae'r rhwydwaith yn aml yn ddatgymalog, gan orfodi marchogwyr i fynd ar y rhwydwaith ffyrdd sydd â thraffig trwm.
- Mae yna hefyd ddiffyg llwybrau cysylltu strategol sy'n atal marchogwyr a beicwyr rhag teithio o ardal i ardal.
- Rhwng Parc Gwledig Loggerheads a Llanbedr, er enghraifft, lle mae'r A494 yn rhannu rhwydwaith helaeth gogledd Clwyd oddi wrth dde Clwyd a Dyffryn Alyn, mae defnyddwyr yn bryderus am nifer cyfyngedig iawn y manau croesi diogel sydd yna ar y ffordd brysur a chyflym yma. Felly hefyd yn Llandegla byddai gwella cysylltiadau rhwng y llwybrau yn golygu rhwydwaith y cred defnyddwyr fyddai'n golygu mwy o ddefnydd.
- Mae yna gefnogaeth gyhoeddus gref i sicrhau fod cymaint ag sydd bosib o'r rhwydwaith ar agor i'r rhai sy'n oedrannus neu sydd â symudedd cyfyngedig. Dull y Cyngor, felly, fydd sicrhau fod gwaharddiadau sy'n cyfyngu mynediad i'r defnyddwyr hyn yn cael eu diddymu lle bynnag y bydd yn bosib gwneud hynny.

Targed gweithredu	Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
-------------------	--------	----------------	-------------------------------

### Grwp 3: Gwelliannau rhwydwaith

3.1	Blaenoriaethu rhestr o gysylltiadau sydd ar goll ac y cred y Sir fyddai'n gwella'r rhwydwaith yn sylweddol	3,4,5,7	f	DP, DC,
3.2	Sefydlu cyfarfodydd datblygu a chyswllt Cyngor Cymuned	4	a	DP
3.3	Sefydlu Cydlynnydd Llwybrau/Mynediad ar gyfer pob Cyngor Cymuned a Thref	4	a,p	DP
3.4	Gweithio gyda FfMLI a thirfeddianwyr, gwella dealltwriaeth defnyddwyr llwybrau o faterion rheoli tir	4,6	a,p	DP, DC, DT, FfMLI
3.5	Datblygu rhaglen i gyflwyno croesfannau caeau sy'n llai cyfyngol	3,7	a,c	DP, DT
3.6	Nodi cyfleoedd i weithio gyda Phrosiect Grug a Bryngaerau i hyrwyddo llwybrau goddefol o fewn ardal y prosiect i'w defnyddio gan rai sydd â symudedd cyfyngedig	3,5,6	a, c	DC, GD,
3.7	Prosiectau gwella arwyneb i wella mynediad i bob gallu.	3,4	a,c	DP, DC,
3.8	Sefydlu grŵp cyswllt i nodi a gyrru gwelliannau mynediad pob gallu ymlaen, gweithio gyda chynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr anabl a thrwy FfMLI a Fforwm Mynediad y Cyngor	3,4,6	a,c	DP, DC, FfMLI, GD
3.9	Gwella'r llwybrau trefol ac integreiddiad gyda Ffyrdd Diogel i'r Ysgol a llwybrau beic	3,4,6	g	DP
3.10	Gwelliant rhwydwaith llwybrau AHNE Bryniau Clwyd	4,7	a,b	DP, DC,

Targed gweithredu		Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
3.11	Gwella mynediad i ac o gwmpas Llangollen yn berthynol i'r fid am Statws Treftadaeth y Byd	3,4,7	a,b,c,g	DP, DC,
3.12	Nodi a datblygu 'coridorau gwyrdd' i gysylltu ardaloedd preswyl, yn enwedig ardaloedd o amddifadiad cymdeithasol, â llecynnau agored ac ardaloedd gwyrdd gan ddefnyddio hawliau tramwy presennol lle bo hynny'n bosib	3,4,5,6	a,b,c,g	DC,DP,CC
3.13	Cynnal rhestr o welliannau lleol a gytunwyd ac a flaenoriaethwyd drwy FfMLI a rhannu gyda chyrrff sy'n gallu dargludo gwelliannau mynediad fel Tir Gofal	4,5	c,f	DP, FfMLI
3.14	Cynnal manylion cyfleusterau parcio ochr ffordd am ddim y gellid eu defnyddio er budd datblygu mynediad i ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig	4,5,6,7	c,i	DP
3.15	Helpu i hwyluso partneriaeth wirfoddol rhwng gyrwyr car a cheffyl a'r gymuned amaethyddol i ddatblygu llwybrau dreifio goddefol ychwanegol	4,6,7	f,i	DP, GD, DT, FfMLI, BC
3.16	Hyrwyddo cysylltiadau trafrnidiaeth gyhoeddus	4,5,6,7	i	DP

## Grwp 4: Mynediad i Dir Agored a'r Arfordir

Y Gwasanaeth Cefn Gwlad ac nid yr Uned Hawliau Tramwy sy'n arwain ar fater mynediad i gefn gwlad agored a bydd yn gyrru ymlaen felly â menter Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu mynediad gwell i lain 2 gilomedr ar hyd holl arfordir Cymru.

Er bod gan Sir Ddinbych dir mynediad agored sylweddol (y chweched mwyaf yng Nghymru) mae'r cyfyngiadau ar hawl mynediad yn golygu mai cerddwyr yw'r unig rai sy'n cael mantais o hyn. Y prif ardaloedd yw canol deheuol Bryniau Clwyd, Llandegla, Mynydd Llantisilio, y Berwyn, Coedwig Clocaenog a Mynydd Hiraethog. Mae yna ddwy gronfa ddŵr fawr, sydd ym meddiant Dŵr Cymru ac sy'n cael eu rheoli ar gyfer hamdden, yn y Brenig ac Alwen. Felly hefyd mae Parc Gwledig Moel Famau o fewn ardal o fynediad agored ac fe'i rheolir yn rhagweithiol ar gyfer hamdden, fel y mae tir y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghoedwig Clocaenog a Moel Famau.

I raddau helaeth, mae'r tir mynediad agored yn ne'r sir ac ar Fynydd Hiraethog yn gwneud iawn am y diffygion yn y rhwydwaith hawliau tramwy i gerddwyr. Mae yna ddarpariaeth bellach hefyd, er yn gyfyngedig, i farchogwyr ceffyl a beicwyr yn y mynediad rheoledig a ddarperir ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, i dir sydd ym meddiant Dŵr Cymru o gwmpas Llyn Brenig ac yn y cyfleusterau a ddarperir yn breifat gan UPM Tillhill yng Nghoed Llandegla.

Traethlin gyfyngedig sydd gan Sir Ddinbych ac mae'r rhan fwyaf o'r llain arfordirol o natur drefol. Mae yna fynediad arfordirol helaeth yn barod, fodd bynnag, gyda'r blaendraeth yn gwbl agored ar gyfer mynediad cyhoeddus.

### Materion allweddol

- Mae gan Sir Ddinbych swm sylweddol o dir mynediad agored ond mae'r cyfyngiadau ar yr hawl tramwy yn golygu mai dim ond cerddwyr sy'n elwa ohono'n bennaf
- Mae'r llain arfordirol gyfyngedig yn drefol ei natur gan fwyaf ond mae yna fynediad cyhoeddus helaeth yn barod, yn cynnwys y blaendraeth cyfan
- Y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn hytrach nag Uned Hawliau Tramwy sy'n arwain ar fater mynediad i dir agored a'r arfordir
- Mae'r Gwasanaeth wedi paratoi cynlluniau rheoli ar gyfer yr holl ardaloedd mynediad agored yn Sir Ddinbych ac ar gyfer mynediad arfordirol

Targed gweithredu	Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
-------------------	--------	----------------	-------------------------------

#### Grwp 4: Mynediad i Dir Agored a'r arfordir

4.1	Blaenoriaethu datblygu cysylltiadau newydd, lle bo'r angen, i wella mynediad i dir agored a'r arfordir	3,5,7	b,i	DC, DP,
4.2	Sefydlu rhaglen i ddatblygu cerdded ar dir mynediad drwy sefydlu llwybrau llinol sy'n hawdd eu dilyn	3,5,6,7	b,i	DC

## Grwp 5: Gwella hyder, gwybodaeth a chyfle

Y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn hytrach na'r Uned Hawliau Tramwy sy'n arwain yn hyrwyddiad hawliau tramwy a hefyd yn cynnal a chadw llwybrau a hyrwyddir. Ar hyn o bryd mae yna dros 100 milltir o hawliau tramwy a hyrwyddir yn y sir neu tua 12% o'r holl rwydwaith llwybrau. Mae'r rhain wedi eu targedu tuag at ystod o wahanol gynulleidfaoedd, o deithiau diwrnod hir ac aml-ddiwrnod a llwybrau beicio mynydd drwy ardaloedd heriol sydd wedi eu targedu ar gyfer y defnyddwyr mwyaf profiadol a brwdfrydig, i'r llwybrau sy'n safleoedd pot mêl a 'throeon byr i bobl brysur' sydd wedi eu hanelu at y rheiny sydd ag ychydig neu ddim profiad o gerdded hamdden. Y pwyslais ar bob un o'r llwybrau hyn yw i'w rheoli i safon uwch nag a fyddai'n bosib fel arall, yn enwedig i wella mwynhad ymwelwyr o'r ardal. Mae mentrau ar y gweill hefyd fel rhan o strategaeth *Sir Ddinbych Iach* i annog pobl i gerdded mwy fel rhan o fywyd iach.

Dangosodd yr arolwg holiadur a wnaethpwyd fel rhan o Asesiad CGHT fod trigolion Sir Ddinbych â lefelau ymwybyddiaeth anarferol uchel yn barod am y rhwydwaith hawliau tramwy yn eu Sir a'u bod yn hyderus yn eu defnyddio.

Cydnabyddir fod y llwybrau a hyrwyddir yn dod â manteision economaidd, cymunedol a chymdeithasol i'r Sir a'u bod yn rhan bwysig o seilwaith twristiaeth y Sir. Tra bod nifer o astudiaethau cenedlaethol wedi eu gwneud i'r agweddau hyn, mae yna sgôp i wneud astudiaethau lleol pellach i nodi'r manteision economaidd, cymdeithasol penodol a manteision eraill i Sir Ddinbych a sut y gellid uchafu'r rhain.

Er ymrwymiad y Cyngor Sir yn ei Strategaeth Mynediad, ar hyn o bryd ychydig iawn o lwybrau sydd ar agor i'r rhai sy'n anabl, sydd ag amhariad gweledol neu sydd ag anghenion arbennig eraill. Mae ystod eang yr anghenion personol gwahano a'r disgwyliadau ar un llaw, a natur llawer o'r rhwydwaith llwybrau ar y llall, yn ei gwneud yn anodd datrys y mater hwn. Yn hytrach na datblygu llwybrau 'symbolaidd' ar gyfer y defnyddwyr hyn, mae angen ymdriniaeth newydd.

Yn ogystal â diddymu gwaharddiadau sy'n cyfyngu ar fynediad lle bynnag y bydd yn bosib gwneud hynny fel ymarfer da (fel y'i gosodir yn Grŵp 4), fe ddylai'r ymdriniaeth hon geisio nodi'r holl lwybrau sydd ar gael drwy'r flwyddyn i, ac sy'n addas ar gyfer, ystod eang o wahanol anghenion arbennig. Drwy sicrhau fod gwybodaeth am y rhain ar gael yn eang, ei bod yn gywir ac yn gyfoes, yna byddai'n bosib i'r defnyddwyr hyn fod yn ymwybodol o'r holl lwybrau sy'n agored iddyn nhw ac felly wneud eu dewisiadau eu hunain am ba lwybrau penodol sy'n cyfarfod â'r hanghenion, diddordebau a'u gallu unigol nhw.

Fe sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol y Sir yn ôl darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac mae'n gweithredu fel cynghorydd statudol i'r Awdurdod ar fynediad i dir a mynediad llinol, yn cynnwys anghenion pob adran o'r gymdeithas. Bydd Fforwm Sir Ddinbych yn cyfarfod dan Gadeiryddiaeth John Hughes OBE ac mae iddo 17 o aelodau. Er bod y Fforwm wedi gweithio'n dda, nid oes ganddo, ar hyn o bryd, ysgrifennydd annibynnol ond mae'n dibynnu ar y Swyddog Hawliau Tramwy i gymryd y swyddogaeth honno. Mae hyn yn anfodhaol gan ei bod yn golygu gwrthdaro buddiannau i'r swyddog.

## Materion allweddol

- Fe hyrwyddir tua 12% o'r holl rwydwaith llwybrau yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, wedi eu hanelu at ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd, galluoedd a diddordebau. Y pwyslais gyda phob un o'r llwybrau hyn yw i'w rheoli i safon uwch nag a fyddai'n bosib fel arall, yn enwedig i wella mwynhad ymwelwyr o'r ardal.
- Er y cafwyd astudiaethau cenedlaethol, nid chafwyd gwerthusiad penodol o'r defnydd a wneir o'r llwybrau a hyrwyddir yn Sir Ddinbych na'r wybodaeth a ddarperir arny'n nhw. Fe fyddai yna sgôp, yn benodol, i ystyried sut y gellid uchafu'r manteision cymdeithasol ac economaidd i'r Sir.
- Mae mentrau ar y gweill i hyrwyddo cerdded fel rhan o fywyd iach dan strategaeth *Sir Ddinbych Iach*.
- Ond y mae yna brinder gwybodaeth am y llwybrau a'r cyfleusterau sydd ar gael drwy'r Sir i'r rheiny sy'n anabl neu sydd â diddordebau arbennig eraill, ac nid yw'r wybodaeth gyfredol yn galluogi defnyddiwr chwaith i farnu a yw llwybr yn addas i'w anghenion, diddordebau neu allu penodol arbennig ef neu hi.
- Mae angen ymdriniaeth newydd felly, i gasglu a hysbysebu gwybodaeth am yr holl lwybrau sy'n addas ar gyfer rhai sydd ag anghenion arbennig. Drwy sicrhau fod gwybodaeth ddibynadwy a chyfoes ar gael yn eang, byddai'n bosib i'r defnyddwyr yma fod yn ymwybodol o'r holl lwybrau a allai fod yn agored iddyn nhw ac i wneud eu dewisiadau eu hunain am ba rai sy'n cyfarfod â'u diddordebau a'u galluoedd arbennig hwy eu hunain.
- Mae angen ysgrifennydd annibynnol i alluogi'r Fforwm Mynediad lleol i ymgymryd â'i swyddogaethau statudol yn gywir ac i oresgyn y gwrthdaro buddiannau presennol gyda swyddogaeth y Swyddog Hawliau Tramwy.



Targed gweithredu	Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
-------------------	--------	----------------	-------------------------------

### Grwp 5: Gwella hyder, gwybodaeth a chyfle

5.1	Datblygu darpariaeth Pwyntiau Gwybodaeth Gymunedol	3,5,6,7	h,i	DC, DP
5.2	Gwella arwyddion a marciau llwybr ar gyfer llwybrau a hyrwyddir	3,5,6,7	b,h,i	DC, DP
5.3	Datblygu a hyrwyddo llwybrau penodol a fydd yn gwella mynediad i ddefnyddwyr gydag amhariadau symudedd neu synhwyraidd	3	c,i	DC, DP, FfMLI
5.4	Datblygu llwybrau sy'n dargludo amcanion iechyd a lles i holl drigolion Sir Ddinbych	3	c,i	DC, DP
5.5	Datblygu a hyrwyddo llwybrau penodol sy'n dod â manteision economaidd i gymunedau a threfi gwledig gan integreiddio'r rhwydwaith llwybrau i ddatblygu cyfleoedd twristiaeth	7	c,h i	DC, DP,CC, FfMLI
5.6	Codi proffil a galluedd y Fforwm Mynediad Lleol i ddarparu cyngor ar fynediad yn y sir	6	h,i	DP, DC
5.7	Gwneud adolygiad a datblygu strategaeth ar gyfer gwell rheolaeth o bob cyhoeddusrwydd printiedig ac ar-lein a deunydd hyrwyddol sy'n berthynol i fynediad yn Sir Ddinbych	6	h,i	DC, DP, FfMLI
5.8	Datblygu ffyrdd o gasglu a hyrwyddo gwybodaeth gywir a chyfoes ar bob llwybr sy'n addas ar gyfer rhai gydag anghenion arbennig i roi iddynt ddewis gwybodus o'r llwybrau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a'u gallu arbennig nhw.	3,6,7	h,i	DP, DC, FfMLI, GD

	<b>Targed gweithredu</b>	<b>Themâu</b>	<b>Blaenoriaethau</b>	<b>Cyrff arweiniol / Partneriaid</b>
5.9	Gwelliannau diogelwch llwybrau ceffyl a phob llwybr lefel 1 / arwyneb priffyrdd	4	f	DP

## 6. Prosiectau arbennig

Yn ychwanegol at y grwpiau Targedau Gweithredu a osodir uchod, fe argymhellir pump o Brosiectau Arbennig. Bydd pob prosiect, i'w gwneud dros gyfnod o flynyddoedd, yn dod â nifer o elfennau at ei gilydd gyda'r nod o gyfarfod ag ystod o amcanion y Cynllun Gwella. I ymgymryd â phob un o'r prosiectau, fe fyddai swyddog prosiect pwrpasol yn cael ei benodi fel rheol gyda, mewn rhai achosion, thîm prosiect bychan. Fe fydd angen ariannu ychwanegol sylweddol ar bob un o'r prosiectau ac, am y rheswm hwnnw, ni ellir cychwyn oni bai fod, a hyd nes y bydd, yr adnoddau hyn wedi eu sicrhau. Eithriad yw'r prosiect Milltiroedd Cymunedol lle y gallai peth gwaith rhagarweiniol fod yn bosib a lle y gellir (yn ddibynnol ar lwyddiant y gwaith hwnnw) fwrw ymlaen ar sail fwy cyfyngedig.

### Prosiect arbennig 1: Milltiroedd Cymunedol

Nod y prosiect hwn fydd i bob un o 39 o gynghorau cymuned a thre Sir Ddinbych ddatblygu llwybr cylchol byr (2-4 milltir) neu reid a fydd yn hyrwyddo gwerthfawrogiad a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr o'r ardal. Lle bynnag y bo hynny'n bosib fe ddylai'r rhain fod yn llwybrau ar gyfer pob gallu, ar agor i ddefnyddwyr ar unrhyw adeg o'r flwyddyn (yn cynnwys rhai a allai fod ar gael i farchogwyr ceffyl a beicwyr) ac yn hygyrch ar gludiant cyhoeddus. Caiff pob Llwybr Cymunedol ei hysbysebu ar arwyddfwrdd y pentref a thafleuni lleol, ond y prif nod yw i'r llwybrau gael eu marcio, eu harwyddo a'u defnyddio'n ddigonol fel y gellir eu dilyn heb arweiniad. Rhagwelir y byddai'r prosiect yn cynhyrchu manteision eang i'r gymuned, iechyd a chymdeithas.

Fe ymgymerid â'r prosiect dros gyfnod o 2 i 3 blynedd ac fe allai fod yn gymwys am ariannu'r UE os caiff ei gweithredu mewn partneriaeth â chonsortium o awdurdodau (er enghraifft, gyda Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy). Cyfanswm cost y prosiect (ar y sail yma) fyddai oddeutu £2,500,000.

Mae'r prosiect yn ei chyfanrwydd yn ddibynnol ar ariannu o ffynonellau allanol a byddai angen penodi tîm prosiect pwrpasol. Mae'n bosib fodd bynnag y gellid gwneud peth gwaith rhagarweiniol i brofi a mireinio'r cysyniad. Byddai hyn yn galluogi datblygu Llwybr Milltiroedd Cymunedol mewn hyd at bump o gymunedau lleol bob blwyddyn gan ddefnyddio arian o gyllideb cynnal a chadw hawliau tramwy. Os nad yw ariannu allanol sylweddol i'w gael a bod y cynllun peilot yn llwyddiannus, yna fe ellir cymhwyso'r dull ar draws y Sir, gyda chymunedau'n cael eu gwahodd i fidio'n flynyddol i enwebu llwybr lleol neu reid i'w cynnwys. Gellid cefnogi hyd at bum llwybr y flwyddyn fel hyn. Byddai hyn yn galluogi ymestyn y prosiect yn raddol i gynnwys y rhan fwyaf o'r Sir dros nifer o flynyddoedd. Ond gyda'r dull yma hefyd mae'n debyg y byddai angen penodi swyddog prosiect.

### Prosiect arbennig 2: Gwelliant coridor Moel Famau – Llandegla – Y Berwyn

Nod y prosiect hwn fyddai penodi swyddog prosiect i ymchwilio a sefydlu coridor mynediad strategol llydan ar gyfer marchogwyr ceffyl a beicwyr o Foel Famau i Fwllch yr Oernant ac ymlaen i Ddyffryn Dyfrdwy. Byddai hyn yn cysylltu'r rhwydwaith llwybrau ceffyl presennol sy'n croesi Dyffryn Alyn lâl gwasgarog i Goed Llandegla, a chreu cysylltiadau ychwanegol o'r goedwig i Fynydd Llantysilio ac ar hyd dyffryn Dyfrdwy hyd at y Berwyn ar ffiniau Wreccsam. Nid oes yna unrhyw llwybrau cyfleus ar gael ar hyn o bryd i farchogwyr ceffyl na beicwyr sy'n cysylltu'r lleoliadau hyn. Yn hytrach gorfodir defnyddwyr i ddefnyddio rhannau hir o briffordd

yr A494 a'r A525 a'r A5104 cul, yn aml heb unrhyw ddewis ond i reidio ar y ffordd gerbydau tarmac lle maent mewn perygl oherwydd y traffig mawr sy'n symud mor gyflym.

Sir Ddinbych fyddai'n ymgymryd â'r prosiect yn y lle cyntaf ond efallai y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn dymuno cefnogi'r prosiect.

Amcangyfrifir fod cyfanswm costau'r prosiect oddeutu £200,000.

### **Prosiect arbennig 3: Llwybr ceffyl a chysylltiad beic Corwen i'r Bala**

Byddai'r prosiect hwn yn amcanu sefydlu llwybr strategol deniadol aml-ddefnyddiwr i gerddwyr, marchogwyr ceffyl a beicwyr gan gysylltu Corwen â'r Bala gan ddefnyddio gwely'r hen reilffordd, lonydd tawel a llwybrau ceffyl presennol. Byddai'r llwybr yn ei gwneud yn bosib osgoi defnyddio'r A494 neu'r B4401 sy'n drwm gan draffig a byddai'n darparu adnodd lleol gwerthfawr mewn ardal sydd ag ychydig iawn o ddarpariaeth llwybrau ceffyl a bydd hefyd yn fynedfa strategol yng Nghorwen ar gyfer ymwelwyr i'r Bala a Gwynedd. Efallai hefyd bod cysylltiadau'n bosib gydag estyniad arfaethedig y rhwydwaith beicio cenedlaethol o Wrecsam ar hyd Dyffryn Dyfrdwy, gyda reid *Ceffyl Môr* Cymdeithas Geffylau Prydain o Brestatyn ac, yn y pen draw, â llwybr strategol pellach yn arwain i'r gorllewin tuag at arfordir Gorllewin Cymru.

Sir Ddinbych fyddai'n arwain y prosiect gyda Chyngor Sir Gwynedd yn cael gwahoddiad i gymryd rhan.

Amcangyfrifir fod cyfanswm costau'r prosiect oddeutu £200,000.

### **Prosiect arbennig 4: Prosiect Lonydd Tawel Cefnffordd Llanellidan i Llanfair**

Amcan y prosiect hwn fyddai creu rhwydwaith o lwybrau wedi eu rheoli a'u harwyddo i hwyluso defnydd gan farchogwyr ceffyl, beicwyr a gyrwyr car a cheffyl yn yr ardal hynod atyniadol ond efallai anghysbell hon o'r Sir nad ymwelir â hi'n aml. Byddai'r rhwydwaith yn gobeithio cymryd mantais lawn o'r golygfeydd ysblennydd ar draws y Sir a chysylltu â phentrefi Llandegla, Llanellidan a Llanfair DC. Byddai'n defnyddio'r lonydd distaw sydd ag ychydig o draffig sydd i'w cael yn yr ardal. Mae llawer ohonynt ag ymylon glaswellt llydan sy'n cynnig lloches i ddefnyddwyr. Câi'r rhain eu hatodi gan hawliau tramwy presennol (yn cynnwys uwchraddio posib rhai o'r adrannau byr i statws culffyrdd cyfyngedig) a llwybrau goddefol yn dilyn trafod telerau.

Byddai consortiwm o bartneriaid prosiect yn cael ei sefydlu. Yn ogystal ag Uned Hawliau Tramwy'r Sir a Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Cynghorau Cymuned, gellid disgwyl i hwn gynnwys y Bartneriaeth Iechyd Lleol, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Amcangyfrifir mai cyfanswm costau'r prosiect yw oddeutu £150,000.

### **Prosiect arbennig 5: Llwybrau Brodorol**

Mae hwn yn brosiect sy'n seiliedig ar y we i ddatblygu cyfleuster ar-lein fydd yn cyfuno gwybodaeth a ddarperir ac a reolir gan Awdurdodau'r Priffyrdd am yr holl llwybrau ceffyl, culffyrdd cyfyngedig, culffyrdd sy'n agored i bob traffig a ffyrdd heb arwyneb sydd wedi eu cofnodi ac sydd wedi eu dynodi ar y map diffiniol a'r rhestr o strydoedd, ynghyd â gwybodaeth arall sy'n berthynol i fynediad a defnydd y llwybrau hyn gan bob defnyddiwr -

cerddwyr, marchogwyr ceffyl, beicwyr, gyrwyr car a cheffyl a defnyddwyr cerbydau. Mae gan y sustem botensial i fod yn arbennig o werthfawr i ddefnyddwyr cadair olwyn a grwpiau anghenion arbennig eraill.

Byddai'r wybodaeth ar gael ar-lein drwy'r 'Google Earth Platform' gan ganiatau'r cyhoedd i ddefnyddio 'Google Earth' neu 'Google Maps' i leoli a dewis llwybrau cyfreithiol addas i fwynhau mynediad i gefn gwlad. Drwy gysylltu'r data sy'n seiliedig ar fab a ffotograffau, clipiau fideo a gwybodaeth arall ar-lein, bydd defnyddwyr nid yn unig yn ymwybodol o'r llwybrau sydd ar gael ond byddant yn gallu gweld y cyflwr ffisegol a nodweddion eraill ymlaen llaw ac felly'n gallu barnu addasrwydd y llwybr hwnnw ar gyfer anghenion a gallu penodol y person hwnnw. Bydd y system hefyd yn galluogi defnyddwyr i nodi llwybrau goddefol eraill a fydd ar gael gan dirfeddianwyr preifat a llwybrau a argymhellir sydd wedi eu darparu gan y cynghorau.

Nodwedd o'r safle fydd gallu'r defnyddwyr i ychwanegu eu sylwadau a'u hadborth eu hunain, gan ddarparu gwybodaeth ddiweddar ar gyfer defnyddwyr eraill a'r cyngor am gyflwr y trac, ei nodweddion a phwyntiau o ddiddordeb.

Argymhellir y dylid datblygu'r prosiect fel partneriaeth gydag uned busnes technoleg gwybodaeth a'i ariannu gan hyrwyddwyr y prosiect. Efallai y bydd yna sgôp hefyd ar gyfer noddwyr twristiaeth neu fusnesau eraill. Gobeithir y byddai trawslwytho'r cymhwysiad ar gael, fel y 'Google Earth' sylfaenol, am ddim i ddefnyddwyr. Byddai'n bosib cario hysbysebion a allai hefyd helpu i gefnogi datblygiad y prosiect yn y tymor hir.

Yn ddelfrydol dylid gweithredu'r prosiect ar sail aml-awdurdod, er enghraifft ynghyd â Chonwy, Sir Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Amcangyfrifir mai cyfanswm costau'r prosiect yw £75,000.

Special projects	Themâu	Blaenoriaethau	Cyrff arweiniol / Partneriaid
<p><b>1. Milltiroedd Cymunedol</b></p> <p>Llwybrau cylchol pentrefol sydd wedi ei gwella i fod â mynediad gorau a lleiaf rhwystredig, wedi eu harwyddo a'u marcio gyda deunydd hyrwyddo cefnogol i fod o werth penodol ar gyfer pobl leol a thwristiaid.</p>	3,4,5,6,7	b,c,i	DC,DP, YM, C, G
<p><b>2. Prosiect Mynediad Moel Famau – Llandegla – Y Berwyn</b></p> <p>I greu cysylltiadau gwell ar hyd coridor hir o dir ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau a dileu croesfannau ffyrdd peryglus</p>	1,3,4,6,7	c,f,i	DP, DC, CC, GD, W, CCGC
<p><b>3. Llwybr Corwen – Y Bala</b></p> <p>Llwybr strategol i farchogwyr ceffyl a beicwyr</p>	1,3,4,6,7	c,f,i	DP,DC, CC, CCGC
<p><b>4. Lonydd Tawel Llanelidan a Llanfair DC</b></p> <p>I nodi, gwella a hyrwyddo lonydd sy'n addas ar gyfer marchogaeth ceffyl, beicio a gyrru car a cheffyl yn cynnwys drwy uwchraddio llwybrau ceffyl o bosib.</p>	1,3,4,6,7	b,c,f,i	DP,GD
<p><b>5. Llwybrau Brodorol</b></p> <p>Gwefannau ar-lein i wella'r gwaith presennol i ymestyn Reidio Clwyd ar draws y sir a galluogi gwybodaeth ryngweithiol wedi ei gynhyrchu gan y defnyddiwr i gael ei rannu am argaeledd llwybrau ceffyl, culffyrdd a ffyrdd heb arwyneb gan ddefnyddio technoleg 'Google Earth / Maps'.</p>	1,3,4,6,7	b,c,f,i	DP, DC, GD, CCGC, YM, C, Ff, G, P, W, PB

## **7. Gweithrediad monitro y Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy**

Caiff gweithrediad y Cynllun Gwella ei fonitro gan adolygiadau rheolaidd bob dwy flynedd o'r rhaglen waith blynyddol fel y'i gosodir allan yn adran 3.1. Gwneir adroddiadau blynyddol i'r Fforwm Mynediad Lleol ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor.

## **Atodiad 1: Rhaglen waith y Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy, Medi 2008 i Fawrth 2010 (Drafft dros dro)**

Isod mae drafft dros dro o raglen waith gyntaf y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy am y cyfnod o fabwysiad ffurfiol y cynllun Gwella ym Medi 2008 hyd Fawrth 2010.

Mae'r rhaglen yn dal i gael ei threfnu a disgwylir y bydd y fersiwn derfynol yn sylweddol wahanol i'r drafft. Er enghraifft, ni fydd pob un o'r tasgau penodol a ddangosir o ran Targedau Gweithredu Grŵp 1, 2 neu 3 i'w parhau i'r rhaglen derfynol. Felly hefyd, nid oes unrhyw dasgau wedi eu pennu eto o ran Grŵp 4 ac ychydig iawn o ran Grŵp 5. Er bod yr holl Dargedau Gweithredu ar gyfer y ddau grŵp yma wedi eu rhestru ar hyn o bryd mae'n debygol, yn ymarferol, mai dim ond rhai o'r targedau fydd yn cael eu trin yn ystod y cyfnod hwn yn y rhaglen waith derfynol.

Fe gyhoeddir y rhaglen waith derfynol ar wefan y Cyngor Sir ynghyd ag adroddiadau cyfnodol o gynnydd wrth iddynt gael eu gwneud i'r Fforwm Mynediad Lleol.



## Rhaglen waith CGHT, Medi 2008 – Mawrth 2010 (Drafft dros dro)

Rhif gweithred / Tasg	Targed gweithredu a thasgau rhaglen perthynol	Blaenoriaeth <sup>3</sup>	Hyd ac adnoddau			Nodia-dau
			Staff <sup>4</sup>	Hyd	Costau /yf <sup>5</sup>	
<b>1</b>	<b>Map diffiniol a datganiad a gorchmynion llwybrau cyhoeddus</b>					
1.1	Datblygu rhaglen i nodi, diffinio a blaenoriaethu datrysiad yr 800+ o wallau cyfredol yn y map diffiniol					
1.1a	Gwirio a chywiro'r map digidol i gyd-fynd â'r map diffiniol papur cyfredol	☆☆☆☆	p	-1fl	£	
1.1b	Archwilio pob gwall sy'n wybyddus gyda'r map diffiniol a'r set digidol cyfredol a'u categorio'n (a) gwall graffig bychan (b) DMMO yn angenrheidiol (c) angen ymchwil pellach i archwilio.	☆☆☆	p + Newydd	1fl	£	YM
1.1c	Gwneud y cywiriadau angenrheidiol i ddatrys grŵp (a)	☆☆☆	p + Newydd	-1fl	£	YM

<sup>3</sup> **Blaenoriaeth:** ☆ = isel, ☆☆☆☆☆ = uchel.

<sup>4</sup> **Staff:** p = presennol, (C) gyda Gwasanaethau Cyfreithiol, (GCG) gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad.

<sup>5</sup> **Cosau:** £ = llai na £5,000, ££ = £5,000 - £15,000, £££ = dros £15,000.

1.1d	Paratoi polisi i flaenoriaethu datrysiaid gwallau grŵp (b) – DMMO yn angenrheidiol a chadarnhau â'r Fforwm Mynediad Lleol	☆☆☆	p (C) + Newydd	-1fl	£	YM
1.1e	Paratoi a phrosesu yn angenrheidiol i ddatrys gwallau grŵp (b)	☆☆☆	p (C) + Newydd	5ml	£££	YM
1.1f	Paratoi polisi ar gyfer diweddarau parhaus mapiau diffiniol cyfunol i adlewyrchu newidiadau parhaus a achoswyd gan orchmynion llwybrau cyhoeddus a chadarnhau a'r Fforwm Mynediad Lleol	☆	p	-1fl	£	
1.3	Paratoi strategaeth ar gyfer diweddarau treigl o fapiau i'w cywiro ar gyfer digwyddiadau cyfreithiol a datrysiaid gwallau					
1.3a	Nodi a chwblhau gorchmynion digwyddiadau cyfreithiol y map diffiniol a diwygio gwaith llinell digidol	☆☆☆☆	p	-1fl	£	
1.3b	Wedi cwblhau tasg 1.1b, adolygu a diwygio gwaith llinell digidol ar gyfer grŵp (a)	☆☆☆	p	-1fl	£	
1.4	Cyhoeddi copïau electronig o'r map diffiniol ar y Rhyngrwyd a thrwy lyfrgelloedd / siopau un stop / canolfannau cefn gwlad					
1.4a	Paratoi templedau map dwyieithog A1 a chynhyrchu 54 o ddalennau papur o'r map diffiniol cyfunol ar gyfer Sir Ddinbych o ddata digidol ar raddfa 6 map/blwyddyn yn seiliedig ar fapiau blaenorol o Glwyd a Gwynedd	☆☆☆☆	p	9ml	£	
1.4b	Paratoi a cyhoeddi fersiwn electronig o'r map diffiniol i'w ddsbarthu ar-lein ac ar CD Rom i'w ddefnyddio gan y cyhoedd a phartneriaid yn unol â hawlfraint OS ac arweiniad y llywodraeth	☆	p	-1fl	£	

1.5	Datblygu rhaglen i ddatrys ôl-groniad o'r gorchmynion addasu'r map diffiniol					
1.5a	Paratoi polisi ar gyfer blaenoriaethu ceisiadau DMMO presennol a'r dyfodol a chadarnhau gyda'r FfMLI	✱✱✱	p (C)	-1fl	£	B
1.5b	Paratoi rhaglen flynyddol ar gyfer gwneud gorchmynion map diffiniol	✱✱✱	p (C)	-1fl	££	
1.6	Nodi a blaenoriaethu cofnodi ffyrdd sydd wedi eu hepgor o gofnodion drwy wallau hanesyddol					
1.6a	Paratoi digwyddiad ynghyd â'r FfMLI ar gyfer defnyddwyr llwybrau sydd â diddordeb mewn darganfod 'ffyrdd coll' i ddiffinio'r galw am hyfforddiant addas a gwasanaethau ar gyfer archwilio hen gofnodion	✱	p (C)	-1fl	£	
1.6b	Paratoi datganiad Blaenoriaethau ar gyfer delio â cheisiadau ar gyfer cofnodi ffyrdd coll.	✱	p (C)	-1fl	£	
1.7	Cynhyrchu canllawiau a pholisïau ar gyfer ceisiadau gorchymyn llwybrau cyhoeddus. Fforio ffyrdd gwahanol o ddelio â gorchmynion i atal tarfu ar waith y map diffiniol a thasgau blaenoriaethol eraill					
1.7a	Paratoi polisi a gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus i greu / dargyfeirio / dileu llwybrau dan Dededdfau Priffyrth a Chynllunio Gwlad a Thref a chodi tâl am y fath orchmynion.	✱✱	p (C)	-1fl	£	
1.7b	Paratoi blaenoriaeth ar gyfer gwneud gorchmynion llwybrau a chyhoeddi'r rhestr gorchmynion sy'n disgwyl eu gwneud ar y rhyngwrwd gan ddangos eu blaenoriaeth	✱	p (C)	-1fl	£	

1.8	Datblygu ymwybyddiaeth o gofrestr y gorchmynion llwybr a chynyddu ymwybyddiaeth o weithdrefnau i atal cyflwyniad tybiedig Hawliau Tramwy newydd					
1.8a	Gweithio gyda'r cyrff sy'n cynrychioli tirfeddianwyr i sicrhau fod pob tirfeddianwr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i gadarnhau maint yr hawl tramwy cyhoeddus ar eu tir a rhoi help os dymunant i allu gwneud y datganiad cyfreithiol priodol os na fyddant yn bwriadu cyflwyno hawliau tramwy pellach ar draws eu tir	☆☆	p	-1fl	£	
<b>2</b>	<b>Rheolaeth a chynnal a chadw'r rhwydwaith llwybrau presennol</b>					
2.1	Cynhyrchu ystod o bolisiau a chanllawiau gweithdrefnu ar gyfer rheolaeth hawliau tramwy a ffyrdd heb arwyneb					
2.1a	Ynghyd â'r FfMLI a Grwpiau Defnyddwyr, nodi meysydd rheolaeth rhwydwaith lle y byddai polisi penodol neu arweiniad o fudd ar gyfer rheolaeth mynediad dda neu i ddatrys gwrthdaro a pharatoi'r polisiau hynny.	☆☆	p	-3bl	£	
2.2	Datblygu a gweithredu rhaglen i newid i drefn gynnal gynlluniedig ac oddi wrth gwynion					
2.2a	Datblygu hierarchaeth rhwydwaith i adlewyrchu pwysigrwydd pob llwybr i'r gymuned leol a'r rhwydwaith ehangach, ac y gellir sefydlu amlder archwiliadau a safon cynnal arni	☆☆☆☆☆	Newydd + p	-2fl	£££	C
2.2b	Dyfeisio a gweithredu amserlen archwilio llwybrau treigl o 3 – 5 mlynedd yn dibynnu ar ei hierarchaeth.	☆☆☆☆	Newydd + p	- 2fl	£	C

2.2c	O gwblhau tasgau a a b, datblygu a gweithredu newid trosodd i ymdriniaeth o gynnal cynlluniedig yn seiliedig ar drefn o archwilio llwybrau. Swydd swyddog hierarchaeth i'w chadw i ddod yn drydydd archwiliwr Hawliau Tramwy	☆☆☆☆	Newydd + p	2 fl yna'n barhaus	£££	C
2.3	Datblygu rhagln o arolygon cyflw rhwydwaith, defnydd llwybrau a bodlonrwydd defnyddwyr					
2.3a	Yn unol â'r arfer wedi ei adolygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / WDU i weithredu arolygon tymhorol bodlonrwydd defnyddwyr i gyflenwi arolygon cyflwr llwybrau i fesur ansawdd mynediad cefn gwlad yn y sir a sut y mae'n cyfarfod â disgwyliadau defnyddwyr abl ac anabl	☆☆	Newydd + p	-2fl	££	
2.4	Datblygu strategaeth i sicrhau y gellir parhau i gynnal llwybrau a hyrwyddir i safon sy'n gyson â'u statws ac i ddelio â mater ariannu					
2.4a	Datblygu strategaeth mewn ymgynghoriad â'r FfMLI i gyfarfod y targed uchod ac i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol	☆☆☆☆☆	p (CS)	2 fl	£	
2.4b	Ceisio pecynau ariannu perthnasol tymor hir gan noddwyr neu drefniadau eraill i sicrhau cynnal parhaus y llwybrau a hyrwyddir	☆☆☆☆	p(CS)	1 fl	£	
2.5	Datblygu cofnodi ceisiadau cwsmeriaid i roi adborth gwell drwy becyn CAMS					
2.5a	Datblygu system gyfrifiadur CAMS i wella'r adborth i'r cyhoedd a'r ganolfan gofal cwsmeriaid o ran adrodd problemau am lwybrau a datrysiad y materion hynny	☆☆☆	p	-1fl	£	

2.6	Cynnal y drefn gynnal bresennol nes y caiff ei disodli gan 2.2 wrth ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio cydweithredol gyda chynghorau cymuned, tîrfeddianwyr a gwirfoddolwyr					
2.6a	Sicrhau fod y drefn reoli a chynnal presennol yn parhau a'i bod yn effeithiol tra bod hierarchaedd a threfn gynnal gynlluniedig y dyfodol yn cael eu datblygu dan 2.2	☆☆☆☆☆	p	Parhaus nes y cyflwynir polisi newydd	£££	C
2.7	Parhau i gasglu gwybodaeth seilwaith a gwella mynediad i'r wybodaeth honno ar gyfer defnyddwyr llwybrau					
2.7a	Cynyddu arolygon cyflwr Dangoswyr Perfformiad ac arolygon cynnal llwybrau arferol i wella ansawdd a chywirdeb cyflwr y llwybrau a data seilwaith yn CAMS a chynyddu ymglymiad gyda defnyddwyr llwybrau sy'n darparu gwybodaeth cyflwr llwybrau	☆☆☆	p	-1fl	£	
2.8	Cynnal rhaglen barhaus o welliannau arwyddion					
2.8a	Cwblhau dyletswydd statudol dan Ddeddf Cefn Gwlad 1968 i arwyddo pob llwybr lle bydd yn gadael y ffordd fetlin.	☆☆☆☆☆	p	5ml	£3,750	D
2.8b	Gwella arwyddbyst cyrchfannau terfyn a gwybodaeth llwybrau drwy ychwanegu gwybodaeth am y terfyn i arwyddion newydd ar llwybrau sy'n arwain at leoliad canfyddadwy, e.e setliad neu bwynt lleol o ddiddordeb	☆☆☆	p	Parhaus	£1,500	E
2.8c	Rhoi gwybodaeth am gyrchfan terfyn ar arwyddion presennol yn ystod archwiliadau arferol; (1500 o arwyddion ar gost o £70 / 100 arwydd)	☆☆☆	p	Parhaus	£1,050	E

2.8d	Ychwanegu enw'r llwybr a rhif gofal cwsmer i arwyddion presennol yn raddol drwy ddefnyddio sticeri wedi eu printio i helpu defnyddwyr pan fyddant yn adrodd am broblemau gyda llwybr (£100 / 1,000 o sticeri am £500 yf)	☆☆	p	Parhaus	£500	E
<b>3</b>	<b>Gwelliannau i'r rhwydwaith</b>					
3.1	Blaenoriaethu cysylltiadau coll y cred y cyngor fyddai'n gwella'r rhwydwaith yn sylweddol					
3.1a	Datblygu a chynnal rhestr barhaus o gysylltiadau coll posib ar gyfer ymchwiliad dilynol neu drafodaeth wrth i gyfleoedd godi	☆☆☆☆☆	p	Parhaus	£	
3.2	Cyfarfodydd datblygu a chyswllt Cyngor Cymuned					
3.2a	Cysylltu â phob Cyngor Cynuned. Adolygu perthynas gyda'r Awdurdod Prifffyrdd ac ymchwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella'r rhwydwaith llwybrau lleol	☆☆☆	p	3 bl	££	
3.3	Sefydlu Cydlynwyr Llwybr / Mynediad ar gyfer pob Cyngor Cymuned a Thref					
3.3a	Gofyn i bob Cyngor Cymuned benodi Cydlynnydd Llwybrau ar gyfer eu hardal nhw a darparu briff	☆☆☆	p	3 bl	£	
3.8	Sefydlu grŵp cyswllt i nodi a gyrru ymlaen â gwelliannau mynediad i bob gallu					
3.8a	Sefydlu grŵp cyswllt i nodi a gyrru ymlaen â gwelliannau mynediad i bob gallu gan weithio â chynrychiolwyr grŵp defnyddwyr anabl a thrwy'r Fforwm Mynediad Lleol a Fforwm Mynediad y Cyngor	☆☆☆☆☆	p	-1fl	£	

3.12	Nodi a datblygu 'coridorau gwyrdd' i gysylltu ardaloedd preswyl, yn enwedig ardaloedd sy'n gymdeithasol ddifreintiedig â llecynau agored ac ardaloedd gwyrdd lleol					
3.12a	Nodi a datblygu 'coridor gwyrdd' sy'n cysylltu ardaloedd preswyl sy'n gymdeithasol ddifreintiedig â llecynau agored ac ardaloedd gwyrdd gan ddefnyddio hawliau tramwy presennol lle bynnag y bo hynny'n bosib	***	p	3 bl	£	
<b>4</b>	<b>Mynediad i dir agored a'r arfordir</b>					
4.1	Blaenoriaethu datblygu cysylltiadau newydd i wella mynediad i Dir Agored a'r Arfordir					
4.2	Sefydlu rhaglen i ddatblygu cerdded ar dir mynediad drwy sefydlu llwybrau llinol sy'n hawdd eu dilyn					
<b>5</b>	<b>Gwella hyder, gwybodaeth a chyfleoedd</b>					
5.1	Darpariaeth Pwyntiau Gwybodaeth Cymunedol					
5.2	Arwyddion a marciau ffordd gwell ar gyfer llwybrau a hyrwyddir					
5.3	Datblygu a hyrwyddo llwybrau penodol a fydd yn helpu i wella mynediad i ddefnyddwyr sydd ag amhariad symudedd neu synhwyraidd					



5.4	Datblygu llwybrau sy'n dargludo amcanion iechyd a llese i holl drigolion Sir Ddinbych					
5.5	Datblygu a hyrwyddo llwybrau penodol sy'n dod â manteision economaidd i gymunedau a threfi gwledig drwy integreiddio'r rhwydwaith llwybrau i ddatblygu cyfleoedd twristiaeth					
5.6	Codi proffil a gallu'r Fforwm Mynediad Lleol i ddarparu cyngor ar fynediad yn y sir					
5.6a	Hwyluso cyfarfod rhwng y Fforwm Mynediad Lleol, aelod arweiniol y Gwasanaeth Cefn Gwlad ac uwch reolwyr i helpu i ddatblygu swyddogaeth y Fforwm Mynediad Lleol drwy ei adroddiad blynyddol i'r awdurdod ac i hyrwyddo ymarfer gorau mewn rheoli mynediad	□□□	p	1 fl	£	
5.7	Adloygu pob deunydd hyrwyddo printiedig ac ar-lein sy'n berthynol i fynediad yn y Sir a datblygu strategaeth i'w rheoli'n well					
5.7						
5.8	Gwella cyrchiad i wybodaeth ar fynediad sy'n siwtio pob gallu					
5.8a	Gweithio drwy grŵp cyswllt a sefydlwyd dan dasg 3.7a, sefydlu'r math o wybodaeth sydd ei hangen a dulliau dewisol i'w ddargludo	□□□	p	-1 fl	£	
5.8b	Datblygu strategaeth i gasglu, gwirio a dargludo gwybodaeth	□□□	p	2 fl	£	

## Nodiadau ar dasgau

### **Nodyn A: Datblygu rhaglen i nodi a datrys gwallau'r map diffiniol cyfredol**

Gellir datblygu rhaglen i ddelio â'r 800+ o wallau ar y map diffiniol gydag adnoddau staff presennol. Ond, i ddatrys y c.500 o wallau bychan o fewn graddfa amser rhesymool ac i archwilio gwallau mwy sylweddol a pharatoi'r DMMO lle bo'r angen, dim ond gydag adnoddau staff ychwanegol y bydd hyn yn bosib. Fe argymhellir penodi swyddog map diffiniol ychwanegol am gyfnod o 2 flynedd.

### **Nodyn B: Blaenoriaethu ceisiadau DMMO**

Nod tasg 1.5a yw datblygu system flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau DMMO presennol a'r dyfodol sy'n darparu graddio rhesymegol a haeddiannol wrth sicrhau y gellir delio â phob cais yn deg.

### **Nodyn B: Datblygu hierarchaeth llwybrau**

Bydd y gwaith hwn yn gofyn am benodiad aelod staff ychwanegol am hyd at 3 blynedd gyda'r gwaith o ddatblygu cynllun categoreiddio ac yna i weithredu'r cynllun yn ymarferol.

Dylid rhannu'r llwybrau'n 5 categori yn seiliedig ar eu pwysigrwydd i'r gymuned leol a'r rhwydwaith ehangach. Y categoreiddio i'w wneud fesul cymuned mewn ymgynghoriad ag Aelodau Lleol, Cynghorau Cymuned/Tref a grwpiau defnyddwyr a disgwylir i hyn gymryd hyn at 2 flynedd.

O gwlbhau'r gwaith hwn fe ddylid cael newid graddol i drefn gynnal a chadw gynlluniedig a chadw'r swydd newydd i ddarparu trydydd archwiliwr llwybrau. Bydd y graddau y gellir gweithredu'r safonau cynnal a chadw gwell yn ymarferol hefyd yn dibynnu ar lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynnal a chadw.

### **Nodyn C: Cwblhau dyletswydd i arwyddo pob Hawl Tramwy pan fyddant yn gadael ffordd fetlin.**

Y Dangosydd Perfformiad cyfredol yw i godi 100 o arwyddion newydd y flwyddyn ar gost o £7,500 (£75 yr arwydd). Amcangyfrifir fod yna tua 800 o arwyddion eto heb eu gosod (o gyfanswm o oddeutu 2,300) sy'n golygu, ar y raddfa gynnydd gyfredol, y cymer y dasg 8 mlynedd i'w chwblhau. Drwy gynyddu'r targed i 150 o arwyddion yf y nod yw lleihau hynny i 5 mlynedd ar gost o £3,750 yn ychwanegol yf

### **Nodyn D: Ychwanegu gwybodaeth cyrchfan a phellter i arwyddbyst presennol**

Fe ddaperir gwybodaeth cyrchfan a phellter dim ond ar lwybrau a hyrwyddir gan wasanaethau cefn gwlad ar hyn o bryd. Byddai ychwanegu hyn at bob arwydd newydd ac at arwyddion presennol yn ystod archwiliad arferol yn costio £1,500 a £1,050 yn eu tro. Byddai gwneud hynny yn gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr yn sylweddol, yn cynyddu defnydd y rhwydwaith ac yn lleihau'r defnydd o ffyrdd un ai ar droed neu mewn car. Hefyd bydd gosod sticer yn dangos enw'r llwybr a rhif gofal cwsmeriaid yn helpu defnyddwyr i adrodd unrhyw broblemau a welant. Dros 5 mlynedd byddai'r gost yn £500 yf.

## Atodiad 2: Amcangyfrif o'r gost i bob Cymuned o adfer a chynnal y rhwydwaith Hawl Tramwy cyfan

Cymuned	Hyd yr Hawl Tramwy y gymuned  Cilomedr	Cost unioni ôl-groniad yr atgyweiriadau		Cost blynyddol cynnal a chadw rhwydwaith yn dilyn uwchraddio	
		Cyfanswm £	£/Cilomedr	Cyfanswm £/yf	£/Cilomedr
Aberchwiler	23.14	2,115	91.41	2,680	115.83
Betws Gwerfyl Goch	14.54	5,635	387.58	683	46.99
Bodelwyddan	10.79	5,185	480.68	1,212	112.38
Bodfari	13.49	3,210	238.03	2,059	152.68
Bryneglwys	41.44	12,645	305.14	1,780	42.96
Cefn Meiriadog	3.62	880	242.91	151.83	41.91
Clocaenog	31.91	14,505	454.61	2,404	75.33
Corwen	65.06	4,885	75.08	4,682	71.96
Cwm	26.04	5,885	226.03	2,535	97.35
Cyffylliog	31.30	7,370	235.49	2,580	82.42
Dinbych	58.13	6,460	111.14	8,206	141.17
Derwen	29.58	20,300	686.39	3,708	125.36
Dyserth	15.81	1,865	117.99	4,080	258.13
Efenechtyd	5.06	4,505	889.45	299	58.94
Gwaenysgor(pt)	1.58	50	31.60	90	56.98
Gwyddelwern	30.97	19,020	614.16	2,917	94.18
Llanarmon yn Iâl	84.84	73,455	865.80	8,093	95.39
Llanbedr Dyffryn Clwyd	40.84	2,530	61.94	4,142	101.42
Llandegla	56.19	45,730	813.83	7,251	129.05
Llandrillo	46.46	15,165	326.44	3,499	75.31
Llandyrnog	49.09	21,300	433.90	4,276	87.11
Llanelidan	50.22	45,020	896.45	5,008	99.72
Llanfair Dyffryn Clwyd	58.86	72,085	1,224.77	8,204	139.39
Llanferres	48.86	9,085	185.94	7,044	144.16
Llanfihangel Glyn Myfyr (pt)	2.42	885	365.09	134	55.35
Llanfwrog Wledig	13.09	1,495	114.25	1,092	83.41
Llangar	27.34	9,655	353.14	2,475	90.52
Llangollen Wledig	42.30	6,675	157.79	2,930	69.27
Tref Llangollen	19.75	6,045	306.10	1,419	71.85
Llangynhafal	28.43	5,995	210.88	1,975	69.46
Llanrhaeadr yng Nghinmeirch	59.31	22,820	384.76	5,889	99.29
Llansantffraid Glyndyfrdwy	2.93	215	73.27	94	31.86
Llantysilio	57.58	12,015	208.66	2,704	46.96
Llanynys	34.63	33,685	972.68	9,772	282.18
Nantglyn	32.23	22,220	689.38	5,294	164.23
Prestatyn	21.06	1,440	68.38	6,069	288.19
Rhuddlan	23.61	22,760	963.82	3,314	140.32
Y Rhyl	6.84	350	51.17	978	142.97
Rhuthun	16.03	4,755	296.72	4,506	281.16
Llanelwy	14.70	1,690	114.95	3,370	229.22
Trefnant	7.11	17,545	2,468.48	881	123.91
Tremeirchion	40.19	11,850	294.82	6,514	162.05
Waen	11.26	9,750	865.63	3,189	283.14
<b>Cyfanswm</b>	<b>1298.62</b>	<b>590,730</b>		<b>150,178</b>	
<i>Cyfartaledd</i>	<i>30.20</i>	<i>13,733</i>	<i>440.85</i>	<i>3,493</i>	<i>120.03</i>

## Atodiad 3: Asesiad o'r Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy: Crynodeb gweithredol

Gwnaed yr asesiad fel rhan o ddyletswydd statudol newydd y Cyngor Sir i baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n edrych ar bob agwedd ar waith y Cyngor ar hawliau tramwy a chyd-destun gwneud y gwaith hwn. Dyma'r sail i lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, yn dangos sut mae'r Sir yn bwriadu rheoli a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol dros y 10 mlynedd nesaf.

### Cynnwys strategol

Rhaid i'r CGHT dynnu ar, a chyfrannu tuag at, gynlluniau a strategaethau eraill lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gyda *Gweledigaeth* y Cyngor Sir *ar gyfer Sir Ddinbych*, *Strategaeth Cefn Gwlad*, y *Strategaeth Dwrystiaeth ar gyfer Gogledd Cymru* a'r *Cynllun Cludiant Rhanbarthol* yn arbennig o bwysig. Mae'n bwysig hefyd bod y CGHT yn cael ei weld fel 'eiddo' a chyfrifoldeb yr awdurdod cyfan, nid yn unig y rhan honno sy'n gyfrifol am reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy.

### Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir

Cofnodwyd rhwydwaith o 1,296 cilomedr (809 milltir) o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Sir gyda 84% (1,088 cilomedr) ohonynt yn llwybrau troed ac ar gael, fel hawl, i gerddwyr yn unig. Llwybrau ceffylau, y gall marchogion a beicwyr eu defnyddio hefyd, yw 14% o'r rhwydwaith (182 cilomedr) a chilffyrdd yn agored i holl draffig, y gall cerbydau eu defnyddio hefyd, yw 2% (26 cilomedr). Mae'n hysbys bod hawliau tramwy eraill yn bodoli ond na chofnodwyd ar hyn o bryd. Mae gan y Sir hefyd 91 cilomedr ychwanegol o ffyrdd cyhoeddus diwyneb.

### Trefniadaeth a staffio

Yr Uned Hawliau Tramwy sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau'r Cyngor Sir tuag at hawliau tramwy cyhoeddus. Yn ogystal â pharatoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cadw cofnod cyfreithiol diweddar o holl hawliau tramwy, cynnal arwyddion a chyfeirbwyntio llwybrau a delio â llwybrau a rwystrowyd. Mae'r Uned yn rhan o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd gyda staff o 5; y Swyddog Hawliau Tramwy, dau Gynorthwy-ydd Mynediad a dau Arolygydd Llwybrau Troed.

Pryd bynnag y bo modd, caiff problemau eu trin yn uniongyrchol gyda'r Arolygydd Llwybrau Troed fel arfer yn cysylltu â'r tîrffediannwr dan sylw. Tra bo hyn yn llwyddiannus yn gyffredinol, mae nifer presennol y staff yn golygu na all y Cyngor ond gweithredu pan fo galw, gan ymateb i faterion sy'n cael eu codi gan ddefnyddwyr llwybrau. Byddai penodi trydydd Arolygydd Llwybrau Troed yn caniatáu iddo newid dros gyfnod i ffordd fwy rhagweithiol o weithio.

I gynghori'r Cyngor ar ei swyddogaeth hawliau tramwy, sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol statudol yn 2002 ac mae ganddo 17 o aelodau ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod yn gwasanaethu'r Fforwm (yn ôl gofynion y ddeddfwriaeth) ond mae'n ei chael yn anodd darparu digon o gymorth ysgrifenyddol, gyda'r Swyddog Hawliau Tramwy'n ysgwyddo'r swyddogaeth honno.

Mae'r Uned Hawliau Tramwy hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cefn Gwlad, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, gyda staff llawn-amser o 26. Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw swyddogaethau statudol o ran hawliau tramwy ond mae'n gyfrifol am hyrwyddo llwybrau dethol. Mae hefyd yn cynnal y llwybrau hyn i safon uwch nag a ellid fel arall i gyfoethogi mwynhad ymwelwyr o'r ardal.

## Llwybrau a hyrwyddir

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Sir yn hyrwyddo mwy na 160 cilometr (100 milltir) o hawliau tramwy; tua 12% o'r rhwydwaith llwybrau. Yn ogystal â 70 cilometr (44 milltir) o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, mae hyn yn cynnwys tri Llwybr Rhanbarthol – Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Hiraethog a Llwybr Dyffryn Dyfrdwy / Llwybr Gogledd Berwyn – ac amryw llwybrau lleol 'pot mêl' mewn ardaloedd ymwelwyr poblogaidd.

Os daw'r arian ar gael, nod hirdymor yw pedwerydd Llwybr Rhanbarthol yn rhedeg ar hyd ochr orllewinol y Sir. Byddai hyn ar sail hawliau tramwy presennol a byddai'n cysylltu'r tri Llwybr Rhanbarthol presennol i roi dewis helaeth o gyfleoedd cerdded ar llwybrau o safon trwy olygfydd deniadol.

## Cyllideb

Fel rhan o'i gyllideb cynnal priffyrdd, mae'r Cyngor wedi darparu £107,710 ar gyfer gwariant cyllid a £50,000 ar gyfer gwariant cyfalaf ar hawliau tramwy cyhoeddus yn 2007/08. Mae hwn yn gynydd o 50% ar flynyddoedd ariannol blaenorol ac mae'n adlewyrchu ailystyried y swm i'w wario ar gynnal priffyrdd yn gyffredinol o ganlyniad i bwysau ar yr awdurdod, gan gynnwys pwysau o gyfeiriad y Fforwm Mynediad Lleol. Clustnodwyd swmp y gwariant cyllid hwn i llwybrau troed. Fodd bynnag, mewn cymhariaeth,, caiff llawer mwy ei glustnodi i gilffyrdd (£296 y cilometr) a llwybrau ceffylau (£108 y cilometr) na llwybrau troed (£58 y cilometr).

Nid oes gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad gyllideb unswydd ond mae'n dibynnu'n fawr ar gymhorthdal, yn enwedig oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae hyn yn cynnwys tua £10,000 y flwyddyn sy'n cael ei dalu gan CCGC fel ad-daliad am dri chwarter cost cynnal Llwybr Clawdd Offa.

## Y Map Diffiniol a'r Datganiad

Mae'r Map Diffiniol a Datganiad – y cofnod ffurfiol, cyfreithiol o linell a statws holl hawliau tramwy – yn waith tra thechnegol sy'n mynd ag amser ond yn waith sy'n sail i'r rhwydwaith llwybrau cyfan.

Yn wahanol i lawer o awdurdodau eraill ar hyd a lled Cymru a Lloegr, nid oes gan y Cyngor ôl-groniad mawr o 'hawliadau' hawliau tramwy yn disgwyl sylw. Serch hynny, nodwyd mwy nag 800 o broblemau gyda'r Map Diffiniol a Datganiad presennol sydd angen eu datrys, gyda rhyw draean ohonynt yn debygol o fod angen gwneud Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol yn ffurfiol. Mae delio â mater o'r maint a chymhlethdod hwn y tu hwnt i allu presennol yr Uned Hawliau Tramwy.

## Cyflwr y rhwydwaith llwybrau ac ôl-groniad cynnal a chadw

Dros y deng mlynedd diwethaf mae'r Cyngor yn gyson wedi gwneud yn well nag awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru yng nghyfran yr hawliau tramwy sydd ag arwyddion cywir lle maent yn gadael priffordd galed neu sy'n hawdd eu defnyddio. Ond darganfu arolwg cynhwysfawr, a wnaed yn 2002, bod llawer o'r bron i 10,000 o gamfeydd, arwyddbyst ac eitemau eraill o gelfi llwybr ar y rhwydwaith hawliau tramwy yn adfeiliedig neu ar goll tra'r oedd rhai eraill bron wedi cyrraedd pen eu bywydau defnyddiol.

Bydd delio â'r ôl-groniad cynnal llwybrau hwn yn gofyn gwariant o ryw £590,000 unwaith ac am byth, ynghyd â £100,000-150,000 ychwanegol y flwyddyn i sicrhau bod y rhwydwaith yn aros mewn cyflwr da ac atal rhag datblygu ôl-groniad arall. Nid yw'r ffigurau hyn yn cyfrif costau clirio planhigion, sy'n costio £12,000 y flwyddyn ar hyn o bryd, nac unrhyw waith all fod ei angen ar wyneb llwybrau neu ddraenio.

## Cynghorau Cymuned a chwaraewyr eraill

Yn ogystal â'r Cyngor Sir, mae gan lawer o gyrff ac unigolion eraill ddi-ddordeb uniongyrchol yn y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos eisoes gyda llawer o'r

rhain, gan gynnwys y gymuned amaeth, a chyrrff yn cynrychioli'r lliaws gwahanol fathau o ddefnyddwyr llwybrau, ond byddai'n croesawu sylwadau ar sut i ddatblygu'r partneriaethau presennol hyn a chreu rhai newydd.

Mae'n awyddus arbennig i weithio'n agosach gyda 38 Cyngor Tref a Chymuned Sir Ddinbych. Un posibilrwydd y mae'r Sir eisiau edrych arno'n fwy manwl fyddai sefydlu rhaglen dreigl lle bydd grwpiau o gymunedau'n enwi'r llwybrau pwysicaf yn eu hardaloedd. Yna bydd modd eu datblygu a'u hyrwyddo fel troeon a reidiau pentref hawdd eu defnyddio. Bydd y Cyngor yn gweld a fydd yn gallu cael cyllid yr UE a chyllid allanol arall ar gyfer y gwaith hwn i wella rhwydweithiau llwybrau lleol, o dderbyn y gallai'r cynllun ddod â buddiannau cymunedol ac economaidd sylweddol. Gallai hefyd fod yn ffordd gyflym o sicrhau bod amrywiaeth o lwybrau ar gael i bobl sy'n cael anhawster symud neu sydd ag anghenion arbennig eraill.

## **Defnydd y cyhoedd o hawliau tramwy, a barn ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Cynhaliwyd arolwg arbennig, yn cynnwys holiadur a ddisbarthwyd gyda *Llais y Sir*, i ddarganfod faint mae pobl Sir Ddinbych yn defnyddio eu hawliau tramwy a'u barn ar y Cynllun Gwella.

Darganfu fod dros 70% o'r atebwyr yn defnyddio hawliau tramwy o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfer cerdded neu redeg, gyda'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd yn deithiau cerdded o 2 filltir neu fwy. Roedd rhedeg neu loncian i gadw'n heini'n weithgaredd pwysig hefyd, yn cystadlu â'r defnydd traddodiadol o fynd â'r ci am dro. Roedd bron i 90% o'r rhai a atebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod "gwario arian ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau yn rhoi gwerth da mewn cymhariaeth â gwariant y Cyngor ar weithgareddau hamdden eraill".

O'u holi ynghylch blaenoriaethau'r Cynllun Gwella, dengys yr arolwg gonsensws amlwg o gefnogaeth i dri phrif faes gwaith – codi mwy o arwyddion i'w gwneud yn haws cael hyd i lwybrau, gwneud llwybrau'n haws i bobl oedrannus neu anabl eu defnyddio, a sicrhau bod holl lwybrau'n glir o ordyfiant neu rywstrau. Mae cefnogaeth gref hefyd i gwblhau'r cofnod cyfreithiol a newid llinell llwybrau i ddatrys gwrthdaro.

## Atodiad 4: Rhestr o ymgynghorwyr

Ymgynghorwyd â'r canlynol ar Aseiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gwahoddwyd hwy hefyd i wneud sylwadau ar ddrafft y Datganiad Gweithredu. (Nid yw'r rhestr yn cynnwys defnyddwyr llwybrau unigol.)

### Cynghorau Cymuned yn Sir Ddinbych

Cyngor Cymuned Aberchwiler  
Cyngor Cymuned Betws Gwerfil Goch  
Cyngor Cymuned Bodelwyddan  
Cyngor Cymuned Bodfari  
Cyngor Cymuned Bryneglwys  
Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog  
Cyngor Cymuned Clocaenog  
Cyngor Cymuned Corwen  
Cyngor Cymuned Cwm, Tremeirchion a'r Waun  
Cyngor Cymuned Cyffylliog  
Cyngor Cymuned Cynwyd  
Cyngor Cymuned Derwen  
Cyngor Cymuned Dinbych  
Cyngor Cymuned Efenechtyd  
Cyngor Cymuned Gwyddelwern  
Cyngor Cymuned Henllan  
Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl  
Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd  
Cyngor Cymuned Llandegla  
Cyngor Cymuned Llandrillo  
Cyngor Cymuned Llandyrnog  
Cyngor Cymuned Llandysilio-yn-Iâl  
Cyngor Cymuned Llanelidan  
Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd  
Cyngor Cymuned Llanferres  
Cyngor Cymuned Llangynhafal  
Cyngor Cymuned Llanrhaeadr yng Nghinmerch  
Cyngor Cymuned Llanynys  
Cyngor Cymuned Nantglyn  
Cyngor Cymuned Trefnant  
Cyngor Cymuned y Ddiserth  
Cyngor Tref Llanelwy  
Cyngor Tref Llangollen  
Cyngor Tref Prestatyn  
Cyngor Tref Rhuddlan  
Cyngor Tref Rhuthun  
Cyngor Tref y Rhyl



## **Awdurdodau lleol eraill a fforymau mynediad lleol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir y Fflint  
Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy  
Fforwm Mynediad Lleol Gwynedd  
Fforwm Mynediad Lleol Powys  
Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint  
Fforwm Mynediad Lleol Wreccsam

## **Adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth**

Bwrdd Croeso Cymru (BCC)  
Comisiwn Coedwigaeth Cymru  
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)  
Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)  
Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)

## **Aelodau Seneddol a Chynulliad Cymru**

Ann Jones AC  
David Jones AS  
Martyn Jones AS  
Darren Millar AC  
Chris Ruane AS  
Janet Ryder AC  
Karen Sinclair AC  
Brynle Williams AC

## **Cyrff a sefydliadau eraill**

ATC  
Rhwydwaith Amgylcheddol Pobl Dduon  
Ystâd Bodrhyddan  
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain  
Undeb Canŵio Prydain (BCU)  
Cymdeithas Yrru Prydain (BDS)  
Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)  
Ffederasiwn Beicwyr Modur Prydain (BMF)  
Cyngor Mynydda Prydain (BMC)  
Tywyswyr Mynyddoedd Prydain  
Ffederasiwn Cyfeiriannu Prydain (BOF)  
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau (BBT)  
Clwb Gwersylla a Charafanio  
Canolfan Farchogaeth Arbennig Clwyd  
Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLBA)



Grŵp Mynediad Adloniadol i Gefn Gwlad (CRAG)  
Clwb Teithiol Beicwyr (CTC)  
Cymdeithas y Cerddwyr – Sir Ddinbych  
Y Comisiwn ar Hawliau Anabledd (DRC)  
Anabledd Cymru  
Cymdeithas y Cerddwyr Anabl  
Gweinyddwyr Gwobr Dug Caeredin  
Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)  
Ymddiriedolaeth y Sogjar  
Menter Coedwigaeth  
Geidiau Cymru  
Cymdeithas Tir ac Adloniant (LARA)  
Clwb Mynydda Gogledd Cymru  
Ystâd Nant Clwyd  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)  
Y Ganolfan Fynydd Genedlaethol – Plas y Brenin  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT)  
Gwasanaeth Addysg Awyr Agored Gogledd-ddwyrain Cymru  
Twristiaeth Gogledd Cymru  
Swyddog Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa  
Cymdeithas Mannau Agored (OSS)  
Yr Arolwg Ordnans  
Cymdeithas y Cerddwyr (RA)  
Cerddwyr Cymru  
Ystâd Rhug  
Marchogaeth i'r Anabl (RDA)  
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)  
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID)  
Y Gymdeithas Frenhinol er Hybu Iechyd  
RSPB Gogledd Cymru (RSPB)  
Cymdeithas y Sgowtiaid  
Parc Cenedlaethol Eryri  
Sustrans  
Cymdeithas Beicwyr Gwlad (TRF)  
UPM Tihill  
Cymdeithas Ganŵa Cymru  
Cymdeithas Beicwyr Gwlad Cymru  
Coed Cadw  
Ystâd Wynnstay  
Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid (YHA)

